TGAU

# CBAC TGAU
# Astudiaethau Crefyddol

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Manyleb

Addysgu o 2025

Dyfarnu o 2027

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud i Gymru sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster TGAU newydd a gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2025 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.
- Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol sy'n nodi'r gofynion pwnc-benodol ar gyfer cymwysterau TGAU Astudiaethau Crefyddol o fis Medi 2025 a thu hwnt.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# CRYNODEB O'R ADDASIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Genesis 1:1 wedi'i newid i Genesis 1:26 | 48 & 51 |
| | Wedi ychwanegu:<br>Sut y brwydrodd y Gurus Sikhaidd am fynegiant crefyddol, gan gynnwys:<br>• y Guru Arjan (cafodd ei ferthyru am wrthod cyfaddawdu o ran ei gredoau Sikhaidd)<br>• y Guru Tegh Bahadur (cafodd ei ddienyddu am wrthod troi at Islam)<br>• y Guru Gobind Singh (cyfarwyddodd Sikhiaid i wisgo'r twrban)<br>• Aberthodd y Guru Tegh Bahadur ei fywyd i amddiffyn rhyddid crefyddol Hindŵiaid | 77 |
| | Mae Uned 3 (3.5a) wedi'i chywiro o 'Beth sy'n ein gwneud yn ddynol a moesegau meddygol cysylltiedig – safbwyntiau Bwdhaidd' i 'Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: y natur ddynol a'r hawl i fywyd – safbwyntiau Bwdhaidd' | 58 |
| | "tair agwedd ar un Duw" wedi'i addasu i "tri person, un Duw" yn adran 1.2.1b | 17 |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## CYNNWYS

CRYNODEB O'R ASESU ........ 5
1 CYFLWYNIAD ........ 6
1.1 Nodau ........ 6
1.2 Cwricwlwm i Gymru ........ 6
1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant ........ 8
1.4 Oriau dysgu dan arweiniad ........ 8
1.5 Defnyddio iaith ........ 8
1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg ........ 8
2 CYNNWYS Y PWNC ........ 9
Uned 1 ........ 10
Uned 2 ........ 44
Uned 3 ........ 46
Uned 4 ........ 81
Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu ........ 83
3 ASESU ........ 84
3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli ........ 84
3.2 Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad ........ 85
4 CAMYMDDWYN ........ 87
5 GWYBODAETH DECHNEGOL ........ 88
5.1 Cofrestru ........ 88
5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl ........ 89
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ........ 90

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# TGAU ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

## CRYNODEB O'R ASESU

| |
|---|
| **Uned 1:Credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol**<br>**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud**<br>**30% o'r cymhwyster**<br>**60 marc** |
| Cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol, cwestiynau sy'n gofyn am atebion byr ac estynedig. |
| **Uned 2: Crefydd a pherthnasoedd**<br>**Asesiad di-arholiad: 6 awr**<br>**20% o'r cymhwyster**<br>**60 marc** |
| Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.<br>Bydd yr asesiad yn seiliedig ar un o ddwy thema osod a gosodiad y bydd CBAC yn eu gosod bob blwyddyn. Bydd y thema osod a'r gosodiad ar gael ar wefan Porth CBAC. |
| **Uned 3: Rolau, hawliau a chyfrifoldebau**<br>**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud**<br>**30% o'r cymhwyster**<br>**60 marc** |
| Cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol, cwestiynau sy'n gofyn am atebion byr ac estynedig. |
| **Uned 4: Crefydd a hawliau dynol**<br>**Asesiad di-arholiad: 6 awr**<br>**20% o'r cymhwyster**<br>**60 marc** |
| Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC. Bydd yr asesiad yn seiliedig ar ddau o dri mater hawliau dynol gosod y bydd CBAC yn eu gosod bob blwyddyn. Bydd y materion hawliau dynol ar gael ar wefan Porth CBAC. |

Cymhwyster unedol, di-haen yw hwn.

Ac eithrio Uned 1, sy'n uned ragarweiniol, nid yw trefn cyflwyno'r unedau eraill yn awgrymu unrhyw hierarchaeth.

Bydd yr arholiadau ar gyfer Unedau 1 a 3, a chyflwyno asesiad di-arholiad Uned 2 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2026. Bydd modd cyflwyno asesiad di-arholiad Uned 4 am y tro cyntaf yn haf 2027. Yna bydd pob asesiad ar gael bob cyfres haf.

Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2027.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/4967/8

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# TGAU ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

## 1 CYFLWYNIAD

### 1.1 Nodau

Mae TGAU Astudiaethau Crefyddol yn cefnogi dysgwyr i:

- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gredoau, gwerthoedd, dysgeidiaethau, arferion ac argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol
- ymgysylltu â phrofiadau byw cyferbyniol crefyddol ac anghrefyddol
- datblygu chwilfrydedd am bwrpas bywyd
- archwilio ffyrdd y mae argyhoeddiadau moesegol ac athronyddol crefyddol ac anghrefyddol wedi dylanwadu ar brofiad a chymdeithas ddynol
- archwilio tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol sy'n ymwneud â materion athronyddol, moesegol a moesol
- gwerthfawrogi natur gymhleth, blwralaidd ac amrywiol cymdeithas drwy ddeall yr angen am oddefgarwch, gwydnwch, ac empathi
- adfyfyrio ar eu gwerthoedd, eu credoau a'u safbwyntiau eu hunain a rhai pobl eraill
- cyd-fynd ag agweddau ar ganllawiau statudol Crefydd, gwerthoedd a moeseg er mwyn galluogi dysgwyr i:
    - datblygu hunanymwybyddiaeth mewn perthynas â phobl eraill
    - creu cysylltiadau â'r byd ehangach a'r byd naturiol
    - datblygu creadigrwydd a chwilfrydedd
    - archwilio'r cwestiynau eithaf ac ystyried ystyr a phwrpas
- o safbwynt plwralaidd, dehongli a gwneud synnwyr o brofiadau dynol, y byd naturiol, a'u lle eu hunain ynddo, gan ddeall gwahanol grefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn eu hardal eu hunain ac yng Nghymru, gan ddatblygu eu hymdeimlad o gynefin, yn ogystal ag yn y byd ehangach.

Caiff y nodau hyn eu gosod gan Cymwysterau Cymru yn eu Meini Prawf Cymeradwyo.

### 1.2 Cwricwlwm i Gymru

Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yw sail y cymhwyster TGAU Astudiaethau Crefyddol hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i hyn mae'r egwyddorion cynnydd, yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sgiliau a chysyniadau pwnc-benodol hynny a amlinellir yn rhan 'Cynllunio eich Cwricwlwm' Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd ar dudalen 82. Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Mae'r cymhwyster TGAU Astudiaethau Crefyddol yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud hyn:

- cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[1], gan roi cyfle i ddysgwyr:
  - meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i'r dyniaethau, a sut i'w cymhwyso mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang.
  - deall profiadau dynol yn well
  - dysgu sut gall amrywiol fydolygon a ffactorau ddylanwadu ar eu canfyddiadau a dehongliadau nhw eu hunain a rhai pobl eraill
  - datblygu gwerthfawrogiad o sut mae cyd-destunau'n dylanwadu ar lunio naratifau a chynrychioliadau
  - datblygu dealltwriaeth o natur gymhleth, blwralaidd ac amrywiol cymdeithasau
  - gwerthfawrogi'r rhyngweithio sydd rhwng amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys bydolygon a chredoau crefyddol ac anghrefyddol
  - datblygu dealltwriaeth gyffredin o amrywiaeth ethnig, hunaniaethau, profiadau a safbwyntiau yn eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach
  - archwilio a datblygu dealltwriaeth oddefgar ac empathetig o'r amrywiol gredoau, gwerthoedd, traddodiadau ac egwyddorion sydd wrth wraidd ac yn llywio cymdeithas ddynol

- cefnogi'r egwyddorion cynnydd[2] drwy annog dysgwyr i:
  - ofyn cwestiynau ymholi cynyddol soffistigedig
  - ymgysylltu â gwybodaeth a chysyniadau sylfaenol cynyddol eang a dwfn
  - gwneud penderfyniadau wedi'u hategu mewn cyd-destunau mwy cymhleth
  - dod i ddeall y byd o'u cwmpas mewn ffordd sy'n gynyddol glir ac ystyrlon
  - symud ymlaen i ymwybyddiaeth sy'n canolbwyntio'n fwy ar fywydau pobl eraill, yn eu cyd-destun cymdeithasol eu hunain ac mewn mannau eraill yn y byd
  - defnyddio tystiolaeth i lunio ac ategu ateb, a chysylltu hynny â sut mae canlyniadau ymholiad wedi'u cynrychioli a'u dehongli.

Mae'r cymhwyster TGAU Astudiaethau Crefyddol wedi cael ei lunio ar sail ystyriaethau pwnc-benodol Llywodraeth Cymru ar gyfer Astudiaethau Crefyddol[3]. Mae'r cymhwyster yn cynnig:

- cyfleoedd i ddeall credoau, dysgeidiaethau, arferion, argyhoeddiadau athronyddol, gwerthoedd a phrofiadau crefyddol ac anghrefyddol o safbwynt lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- cyfleoedd i chwilio am atebion i'r cwestiynau athronyddol pennaf fel pwrpas ac ystyr bywyd
- cyfleoedd i archwilio seiliau safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol a dylanwad argyhoeddiadau crefyddol ac anghrefyddol ar ein cymdeithas blwralaidd ac amrywiol dros amser
- y sgiliau i ddysgwyr archwilio materion athronyddol a moesol, adfyfyrio ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain, ac ar gredoau a gwerthoedd pobl eraill
- cyfleoedd i ddatblygu empathi, creadigrwydd, chwilfrydedd, gwydnwch, goddefgarwch ac ymdeimlad o gynefin a phrofiadau dynol yn y byd naturiol.

Noder – fel yr esboniodd Cymwysterau Cymru yn ei adroddiad ar ddeilliannau'r ymgynghoriad ar y Meini Prawf Cymeradwyo [deilliannau-ymgynghoriad-fesul-pwnc.pdf], ni luniwyd y TGAU Astudiaethau Crefyddol i ymdrin â holl agweddau'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

---

[1] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/

[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/egwyddorion-cynnydd/

[3] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#ystyriaethau-penodol-ar-gyfer-y-maes-hwn

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofynion dysgu blaenorol penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Astudiaethau Crefyddol naill ai ar lefel UG neu ar lefel Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4 Oriau dysgu dan arweiniad

Lluniwyd y TGAU Astudiaethau Crefyddol i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 – 140 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11.

## 1.5 Defnyddio iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddaru terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i rywedd a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd warchodedig benodol.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion gwarchodedig penodol yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Bydd trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer dysgwyr cymwys er mwyn i'r asesiadau fod o fewn eu cyrraedd a'u galluogi i ddangos eu gwybodaeth a sgiliau heb newid gofynion yr asesiad.

Mae gwybodaeth am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w cael yn y ddogfen ganlynol gan y Cydgyngor Cymwysterau (CGC): Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-Gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 2 CYNNWYS Y PWNC

## Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad sydd i'w weld yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r tri bonyn canlynol:

- Mae 'Dylai dysgwyr ddeall' yn cael ei ddefnyddio pan fydd gofyn i ddysgwyr ddangos a chymhwyso gwybodaeth at gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd a gallu syntheseiddio a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol.
- Mae 'Dylai dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o' yn golygu nad oes angen i ddysgwyr ddeall pob agwedd ar y cynnwys dan sylw yn fanwl. Dylai athrawon gyfeirio at y dogfennau Canllawiau Addysgu i gael arweiniad pellach ynghylch y dyfnder a'r ehangder sy'n ofynnol wrth addysgu'r cynnwys hwn.
- Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fydd angen i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth at ddeunydd ffynhonnell neu gymhwyso sgiliau a thechnegau ymarferol.

**<u>Rhaid i ganolfannau addysgu:</u>**

- **naill ai** Cristnogaeth **neu** Gristnogaeth Gatholig

**ac**

- **un** o grefyddau'r byd o'r rhestr ganlynol:
    - Bwdhaeth
    - Hindŵaeth
    - Islam
    - Iddewiaeth
    - Sikhiaeth (Sikhi)

**a**

- safbwyntiau anghrefyddol.

Sylwch fod yn **rhaid** i'r dewisiadau hyn aros yn gyson ar draws **pob** Uned.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 1

**Credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol**

Math o Asesiad: Arholiad ysgrifenedig (1 awr 15 munud)
30% o'r cymhwyster
60 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- archwilio credoau, arferion a bydolygon crefyddol ac anghrefyddol allweddol
- datblygu dealltwriaeth o elfennau allweddol astudiaethau crefyddol er mwyn galluogi dealltwriaeth gysyniadol o natur cred
- archwilio ffynonellau awdurdod a systemau moesegol sy'n llunio safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol tuag at foesoldeb
- deall sut mae credoau a dysgeidiaethau yn llunio safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol am hunaniaeth, perthyn, ystyr, pwrpas a chred mewn bywyd ar ôl marwolaeth.

Mae'r uned wedi'i rhannu'n bedair rhan:

- Natur cred – rhaid i bob ymgeisydd astudio natur cred

- Cristnogaeth neu Gristnogaeth Gatholig – rhaid i ymgeiswyr astudio **un** o'r dewisiadau canlynol:
  - a – Cristnogaeth
  - b – Cristnogaeth Gatholig

- Crefyddau'r byd – mae'n rhaid i ymgeiswyr astudio **un** o blith yr opsiynau canlynol:
  - a – Bwdhaeth
  - b – Hindŵaeth
  - c – Islam
  - ch – Iddewiaeth
  - d – Sikhiaeth (Sikhi)

- Safbwyntiau anghrefyddol – mae'n rhaid i bob ymgeisydd astudio safbwyntiau anghrefyddol.

Bydd safbwyntiau anghrefyddol yn cael eu hasesu mewn perthynas â safbwyntiau Cristnogol a safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Natur Cred**

| **1.1 Natur Cred** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.1.1 Natur cred | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.1.1 Natur cred | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>• Beth mae theïstiaid, monotheïstiaid, polytheïstiaid, plwralwyr crefyddol ac agnostigiaid yn ei gredu<br>• Pam mae rhai yn credu mewn duw neu dduwiau ac yn nodi eu bod yn grefyddol<br>• Beth mae atheistiaid a dyneiddwyr yn ei gredu<br>• Pam nad yw rhai pobl yn credu mewn duw neu dduwiau ac yn nodi eu bod yn anghrefyddol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Cristnogaeth neu Gristnogaeth Gatholig**
**a – Cristnogaeth**

<table>
<tr><th colspan="2">1.2a Credoau – Cristnogaeth</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.2.1a Credoau a dysgeidiaethau allweddol mewn Cristnogaeth<br>1.2.2a Cred Gristnogol ar waith</td></tr>
<tr><th>Adran</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>1.2.1a Credoau a dysgeidiaethau allweddol mewn Cristnogaeth</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>credoau a dysgeidiaethau Cristnogol am natur Duw:<ul><li>Creawdwr ex nihilo; Genesis 1:1-2</li><li>hollalluog</li><li>hollwybodus</li><li>hollgariadus</li><li>hollbresennol.</li></ul>credoau a dysgeidiaethau Cristnogol am y Drindod: tair agwedd ar un Duw:<ul><li>Tad: Luc 15:11-32</li><li>Mab: Ioan 1:1-3, 14</li><li>Ysbryd Glân: Ioan 14:25-26 a Galatiaid 5: 22-23.</li></ul>credoau a dysgeidiaethau Cristnogol am Iesu:<ul><li>genedigaeth: Mathew 1:18- 2:12, Luc 1:26-35 a 2:1-21</li><li>ymgnawdoliad fel y Gair: Ioan 1:1-3, 10: 30-38, 14:1-9</li><li>gweinidogaeth: Luc 5: 17-24, Ioan 11: 21-27</li><li>marwolaeth: Marc 15:1-3</li><li>Atgyfodiad: Ioan 20:1-21</li><li>Esgyniad: Actau 1:9-11</li><li>Iesu fel y Meseia: Mathew 16:13–17</li><li>fel y ffordd i'r Iawn a iachawdwriaeth: Ioan 3:16, 14:6.</li></ul>credoau a dysgeidiaethau Cristnogol am yr enaid:<ul><li>wedi'i greu ar ddelw Duw: Genesis 1:27</li><li>gwreichionen ddwyfol wedi'i chreu gan Dduw: Genesis 2:7</li><li>tragwyddol a throsgynnol</li><li>mae gan fodau dynol resymoledd (rationality) ac ewyllys rydd ond maen nhw wedi syrthio: Genesis 1:26-28; Genesis 2:15-17 a Genesis 3.</li></ul>Credoau a dysgeidiaethau allweddol mewn Cristnogaeth sy'n bodoli yn y canlynol:<ul><li>Credo'r Apostol</li><li>Gweddi’r Arglwydd.</li></ul>Pwysigrwydd y Beibl:<ul><li>defnyddio'r Beibl fel ffynhonnell doethineb ac arweiniad – dehongliadau llythrennol, ceidwadol a rhyddfrydol.</li></ul></td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 1.2.2a Cred Gristnogol ar waith | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Cristnogol allweddol:<br>• cefnogi'r tlawd: Actau 20:35<br>• rhoi yn hael: 2 Corinthiaid 9:7<br>• dyletswydd i roi ffydd ar waith: Iago 2:17.<br><br>Enghreifftiau lleol neu genedlaethol cyfoes o gred a ffydd Gristnogol ar waith – gwaith cymunedol a gweithredaeth ar sail ffydd.<br><br>Sut mae nodau a gwaith Cymorth Cristnogol yn adlewyrchu credoau Cristnogol ar waith. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

<table>
<tr><th colspan="2">1.3a Credoau am fywyd a marwolaeth – Cristnogaeth</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.3.1a Ystyr bywyd mewn Cristnogaeth<br>1.3.2a Credoau Cristnogol am fywyd ar ôl marwolaeth<br>1.3.3a Arferion Cristnogol</td></tr>
<tr><th>Adran</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>1.3.1a Ystyr bywyd mewn Cristnogaeth</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>credoau Cristnogol am ystyr bywyd:<br>• addoli Duw: Rhufeiniaid 12:1<br>• dysgeidiaethau ar garu Duw ac eraill: Mathew 22:37-39<br>• bod twf a thrawsnewidiad ysbrydol yn hanfodol er mwyn deall pwrpas bywyd: Luc 8: 1-15 – Dameg yr Heuwr.</td></tr>
<tr><td>1.3.2a Credoau Cristnogol am fywyd ar ôl marwolaeth</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Sylfaen y gred Gristnogol ar fywyd ar ôl marwolaeth:<br>• Ioan 3:16<br>• Ioan 11: 25-26.<br><br>credoau a dysgeidiaethau Cristnogol am fywyd ar ôl marwolaeth:<br>• nefoedd: Ioan 14:1-4<br>• uffern: Luc 12:4-5; 2 Thesaloniaid 1:5-9<br>• atgyfodiad: Luc 16:19-31; Ioan 11:24-27; 1 Corinthiaid 15 20-22; 1 Corinthiaid 15:42-44</td></tr>
<tr><td>1.3.3a Arferion angladdau a galaru Cristnogol</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Pwysigrwydd arferion angladdau a galaru:<br>• traddodi corff person i Dduw<br>• diolch i Dduw am fywyd y person hwnnw<br>• dathlu a chofio bywyd yr ymadawedig<br>• defnyddio arwyddion a symbolau i fynegi ystyr ddyfnach<br>• dangos y cysylltiad rhwng y bywyd hwn a chredoau Cristnogol am fywyd ar ôl marwolaeth.<br><br>Arferion galaru Cristnogol:<br>• defnyddio symbolau, fel gwisgo du<br>• adrodd gweddïau i'r ymadawedig.<br><br>Arferion angladdau Cristnogol:<br>• gwasanaeth gwylnos<br>• gwasanaeth angladdol – gweddïau, emynau a chanmolawd (eulogy)<br>• claddedigaeth neu amlosgiad a defod daearu.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **1.4a Credoau crefyddol yn y gymdeithas gyfoes – Cristnogaeth** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.4.1a Hunaniaeth, perthyn ac arferion Cristnogol<br>1.4.2a Cristnogaeth a moesoldeb | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.4.1a Hunaniaeth, perthyn ac arferion Cristnogol | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Pwysigrwydd mynegi ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn i Gristnogion, fel:<br>• perthyn i gymuned addoli<br>• ymdeimlad a rennir o bwrpas, cyfeiriad a moesoldeb mewn bywyd.<br><br>Mynegi hunaniaeth a pherthyn Cristnogol drwy weithredoedd symbolaidd – pererindod.<br><br>Rhesymau posibl dros gwblhau pererindod:<br>• dangos ymrwymiad i Dduw fel gweithred o ymroddiad crefyddol<br>• dysgu mwy am unigolion Cristnogol drwy ymweld â safleoedd sy'n gysylltiedig â'u bywydau<br>• dilyn ôl troed unigolion allweddol Cristnogaeth<br>• profi ymdeimlad o gymuned<br>• gall safleoedd pererindod fod yn gysylltiedig â gwyrthiau.<br><br>Rôl, arwyddocâd a nodweddion y safleoedd pererindod Cristnogol canlynol:<br>• Eglwys Gadeiriol Tyddewi, Sir Benfro<br>• Taizé.<br><br>Mynegi hunaniaeth a pherthyn Cristnogol drwy weithredoedd symbolaidd – defodau newid byd.<br><br>Rôl, arwyddocâd a nodweddion y canlynol:<br>• bedydd: Marc 1:9-11, baban; goblygedig yn Actau 16:33 a bedydd credinwyr; Actau 2:37-41<br>• ewcharist/cymun: 1 Corinthiaid 11:23-26<br>• bedydd esgob (conffirmasiwn) Actau 2:1-13. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 1.4.2a Cristnogaeth a moesoldeb | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>credoau a dysgeidiaethau Cristnogol o ran sut i wneud penderfyniadau moesol:<br>• ufuddhau i orchmynion dwyfol: y Deg Gorchymyn; Exodus 20:1-17<br>• y Beibl fel ffynhonnell moesoldeb:<br>    • Cariad Cristnogol (agape): Luc 10:25-37; Luc 13:34-35<br>    • maddeuant: Mathew 6:12; Mathew 18:21-22; Luc 23:34 a Mathew 5:43-44<br>• y defnydd o'r cydwybod i wneud penderfyniadau moesol: 2 Corinthiaid 1:12.<br><br>Moesoldeb a barn Ddwyfol mewn bywyd ar ôl marwolaeth:<br>• trysorau ar y ddaear ac yn y nefoedd; Mathew 6:19-21:16 a Luc 16:19-31<br>• barn yn y dyfodol sy'n seiliedig ar weithredoedd daearol; Mathew 25:31-46 – Dameg y Defaid a'r Geifr.<br><br>Dylai dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o:<br><br>• beth mae problem drygioni yn ei olygu – beth yw ystyr drygioni moesol (mae pobl yn ei achosi) a drygioni naturiol (mae natur yn ei achosi)<br>• heriau athronyddol o ganlyniad i gredu mewn Duw a bodolaeth drygioni a dioddefaint – y triawd anghyson<br>• beth yw theodiciaeth, a sut mae theodiciaethau Irenaean (creu eneidiau) ac Awstinaidd (penderfyniad am yr enaid) yn ceisio mynd i'r afael â phroblem drygioni. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Cristnogaeth neu Gristnogaeth Gatholig**
**b – Cristnogaeth Gatholig**

| **1.2b** | **Credoau – Cristnogaeth Gatholig** |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.2.1b Credoau a dysgeidiaethau allweddol mewn Cristnogaeth Gatholig<br>1.2.2b Cred Gatholig ar waith | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.2.1b Credoau a dysgeidiaethau allweddol mewn Cristnogaeth Gatholig | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Catholig am natur Duw:<br>• Creawdwr ex nihilo; Genesis 1:1-12<br>• hollalluog<br>• hollwybodus<br>• hollgariadus<br>• hollbresennol.<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Catholig am y Drindod: tri person, un Duw:<br>• Awstin Sant 8.10<br>• Tad: Luc 15:11-32<br>• Mab: Ioan 1:1-3, 14<br>• Ysbryd Glân: Ioan 14:25-26 a Galatiaid 5: 22-23.<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Catholig am Iesu:<br>• genedigaeth: Mathew 1:18- 2:12, Luc 1:26-35 a 2:1-21<br>• Ymgnawdoliad fel y Gair: Ioan 1:1-3, 10: 30-38, 14:1-9<br>• gweinidogaeth: Luc 5: 17-24, Ioan 11: 21-27<br>• marwolaeth: Marc 15:1-3<br>• atgyfodiad: Ioan 20:1-21<br>• esgyniad: Actau 1:9-11<br>• Iesu fel y Meseia: Mathew 16:13–17<br>• fel y ffordd i'r Iawn a iachawdwriaeth: Ioan 3:16, 14:6.<br><br>credoau a dysgeidiaethau Catholig am natur yr enaid:<br>• yr enaid yw agwedd ddyfnaf ac egwyddor ysbrydol y person dynol a grëir ar ddelw Duw; Genesis 1:27<br>• gwreichionen ddwyfol wedi'i chreu gan Dduw: Genesis 2:7<br>• anfarwol a throsgynnol<br>• mae gan fodau dynol resymoledd ac ewyllys rydd ond maen nhw wedi syrthio; Genesis 1:26-28; Genesis 2:15-17 a Genesis 3.<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Catholig allweddol:<br>• Credo Nicene<br>• Gweddi’r Arglwydd.<br><br>Pwysigrwydd y Beibl:<br>• defnyddio'r Beibl fel ffynhonnell doethineb ac arweiniad – dehongliadau llythrennol, ceidwadol a rhyddfrydol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | Y defnydd o destunau pwysig eraill a'u pwysigrwydd mewn bywyd bob dydd:<br>• Cylchlythyrau'r Pab<br>• Catecism yr Eglwys Gatholig. |
| 1.2.2b Cred Gatholig ar waith | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Catholig allweddol:<br>• cefnogi'r tlawd: Actau 20:35<br>• rhoi yn hael: 2 Corinthiaid 9:7<br>• dyletswydd i roi ffydd ar waith: Iago 2:17.<br>• Beth yw ystyr Dewis Ffafriol tuag at y Tlodion.<br><br>Enghreifftiau lleol neu genedlaethol cyfoes o gred a ffydd Catholig ar waith – gwaith cymunedol a gweithredaeth ar sail ffydd.<br><br>Sut mae nodau a gwaith yr Asiantaeth Gatholig ar gyfer Datblygu Tramor (CAFOD) yn adlewyrchu cred Gatholig ar waith. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **1.3b Credoau am fywyd a marwolaeth – Cristnogaeth Gatholig** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.3.1b Ystyr bywyd mewn Cristnogaeth Gatholig<br>1.3.2b Credoau Catholig am fywyd ar ôl marwolaeth<br>1.3.3b Arferion galaru ac angladd Catholig | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.3.1b Ystyr bywyd mewn Cristnogaeth Gatholig | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>credoau Catholig am ystyr bywyd:<br>• addoli Duw; Rhufeiniaid 12:1<br>• dysgeidiaethau ar garu Duw ac eraill; Mathew 22:37-39<br>• Deddf Naturiol Sant Thomas Aquinas – y 5 gofyniad cynradd<br>• bod twf a thrawsnewidiad ysbrydol yn hanfodol er mwyn deall pwrpas bywyd; Luc 8: 1-15 – Dameg yr Heuwr. |
| 1.3.2b Credoau Catholig am fywyd ar ôl marwolaeth | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Sail cred Gatholig mewn bywyd ar ôl marwolaeth:<br>• Ioan 3:16<br>• Ioan 11: 25-26.<br><br>credoau a dysgeidiaethau Catholig am fywyd ar ôl marwolaeth:<br>• nefoedd: Ioan 14:1-4; Catecism yr Eglwys Gatholig 1022<br>• uffern: Luc 12:4-5; 2 Thesaloniaid 1:5-9; Catecism yr Eglwys Gatholig 1033<br>• atgyfodiad: Luc 16:19-3; Ioan 11:24-27; 1 Corinthiaid 15 20-22 ac 1 Corinthiaid 15: 42-44<br>• credoau am Burdan: Catecism yr Eglwys Gatholig 1022; 1030. |
| 1.3.3b Arferion galaru ac angladd Catholig | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Pwysigrwydd arferion angladdau a galaru:<br>• traddodi corff person i Dduw<br>• diolch i Dduw am fywyd y person hwnnw<br>• dathlu a chofio bywyd yr ymadawedig<br>• defnyddio arwyddion a symbolau i fynegi ystyr ddyfnach<br>• dangos y cysylltiad rhwng y bywyd hwn a chredoau Catholig am y bywyd ar ôl marwolaeth.<br><br>arferion galaru Catholig:<br>• offeren yr ymadawedig<br>• adrodd gweddïau i'r ymadawedig.<br><br>arferion angladdau Catholig:<br>• gwasanaeth gwylnos<br>• offeren dros y meirw (requiem)<br>• gwasanaeth angladdol, emynau, gweddïau a chanmolawd (*eulogy*)<br>• claddedigaeth a defod daearu. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| 1.4b Credoau crefyddol yn y gymdeithas gyfoes – Cristnogaeth Gatholig | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.4.1b Hunaniaeth, perthyn ac arferion Catholig<br>1.4.2b Catholigiaeth a moesoldeb | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.4.1b Hunaniaeth, perthyn ac arferion Catholig | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Pwysigrwydd mynegi ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn crefyddol i Gatholigion, fel:<br>• perthyn i gymuned addoli<br>• rhannu ymdeimlad o bwrpas a chyfeiriad mewn bywyd.<br><br>Mynegi hunaniaeth a pherthyn Catholig drwy arferion a symbolaeth – pererindod.<br><br>Rhesymau posibl dros gwblhau pererindod:<br>• dangos ymrwymiad i Dduw fel gweithred o ymroddiad crefyddol<br>• dysgu mwy am unigolion Catholig drwy ymweld â safleoedd sy'n gysylltiedig â'u bywydau<br>• dilyn ôl troed unigolion allweddol Catholigiaeth<br>• profi ymdeimlad o gymuned<br>• gall safleoedd pererindod fod yn gysylltiedig â gwyrthiau.<br><br>Rôl, arwyddocâd a nodweddion y safleoedd pererindod Gatholig canlynol:<br>• Lourdes<br>• Basilica Sant Pedr, Rhufain.<br><br>Mynegi hunaniaeth a pherthyn Catholig drwy weithredoedd symbolaidd – defodau newid byd.<br><br>Rôl, arwyddocâd a nodweddion y canlynol:<br>• bedydd: Marc 1:9-11<br>• ewcharist/cymun: 1 Corinthiaid 11:23-26<br>• y cymun bendigaid cyntaf<br>• bedydd esgob (conffirmasiwn) Actau 2:1-13. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 1.4.2 Catholigiaeth a moesoldeb | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>credoau a dysgeidiaethau Catholig am sut i wneud penderfyniadau moesol:<br>• ufuddhau i orchmynion dwyfol fel y Deg Gorchymyn; Exodus 20:1-17<br>• Deddf Naturiol Sant Thomas Aquinas – y 5 gofyniad cynradd<br>• y Beibl fel ffynhonnell moesoldeb; Cariad Cristnogol (agape): Luc 10:25-37; Luc 13:34-35; maddeuant: Mathew 6:12; Mathew 18:21-22; Luc 23:34 a Mathew 5:43-44<br>• y defnydd o'r cydwybod i wneud penderfyniadau moesol; 2 Corinthiaid 1:12.<br><br>Moesoldeb a barn Ddwyfol mewn bywyd ar ôl marwolaeth:<br>• trysorau ar y ddaear ac yn y nefoedd; Mathew 6:19-21:16 a Luc 16:19-31<br>• barn yn y dyfodol sy'n seiliedig ar weithredoedd daearol; Mathew 25: 31-46 – Dameg y Defaid a'r Geifr<br>• Catecism yr Eglwys Gatholig 1022.<br><br>Dylai dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o:<br>• beth mae problem drygioni yn ei olygu – beth yw ystyr drygioni moesol (mae pobl yn ei achosi) a drygioni naturiol (mae natur yn ei achosi)<br>• heriau athronyddol o ganlyniad i gredu mewn Duw a bodolaeth drygioni a dioddefaint – y triawd anghyson<br>• beth yw theodiciaeth, a sut mae theodiciaethau Irenaean (creu eneidiau) ac Awstinaidd (penderfyniad am yr enaid) yn ceisio mynd i'r afael â phroblem drygioni. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Crefyddau'r byd**
**a – Bwdhaeth**

| **1.5a Credoau – Bwdhaeth** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.5.1a Credoau a dysgeidiaethau allweddol mewn Bwdhaeth<br>1.5.2a Cred Fwdhaidd ar waith | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.5.1a Credoau a dysgeidiaethau allweddol mewn Bwdhaeth | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Bwdhaeth:<br>• dim cred mewn creawdwr neu dduw canolog<br>• natur bodolaeth: Y Pedwar Gwirionedd Nobl: mathau o ddioddefaint (dukkha); achos dioddefaint (tanha); goleuedigaeth fel diwedd dioddefaint (nirodha); y ffordd i ryddid rhag dioddefaint (Magga)<br>• y Llwybr Wythplyg Nobl fel ffordd o ddod â dioddefaint i ben; Dhammapada 20.<br><br>Tair adran y Llwybr Wythplyg:<br>• doethineb (panna) deall cywir, bwriad cywir<br>• moesoldeb (sila) siarad cywir, gweithredu cywir, bywoliaeth gywir<br>• myfyrdod (samadhi) ymdrechu cywir, ymwybyddiaeth ofalgar gywir, canolbwyntio cywir.<br><br>Tri Nod Bodolaeth (Lakshanas):<br>• anicca – y cysyniad o fyrhoedledd (Dhammapada 20).<br>• anatta – y cysyniad o ddim hunan parhaol, gan ddefnyddio Stori Nagasena a'r Cerbyd fel enghraifft o syniad y Pum Skandha (Dhammapada 113 a 279)<br>• dukkha – anfodlonrwydd sy'n deillio o analluu i dderbyn anicca ac anatta (Dhammacakkapayattana Sutta)<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Bwdhaidd am y Bwdha (Siddhartha Gautama):<br>• bywyd cynnar: cyn-enedigaeth, genedigaeth, rhagfynegiad, bywyd mewn palas<br>• Pedair Golygfa: henaint, salwch, marwolaeth, dyn sanctaidd<br>• ymwrthodiad: gadael y palas, dod yn asgetig<br>• Goleuedigaeth: gweld y byd fel y mae mewn gwirionedd<br>• datguddiad o'r Dharma (Samyutta Nikaya). |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 1.5.2a Cred Fwdhaidd ar waith | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau  a dysgeidiaethau Bwdhaidd allweddol:<br>• dana: rhoi yn hael (Ittivuttaka 26)<br>• karuna: tosturi gan fod popeth byw yn rhyngddibynnol<br>• metta: caredigrwydd cariadus. "Mae fy nghrefydd yn syml iawn, fy nghrefydd yw caredigrwydd." (Dalai Lama).<br><br>Enghreifftiau lleol neu genedlaethol cyfoes o gred a ffydd Fwdhaidd ar waith – gwaith cymunedol a gweithredaeth ar sail ffydd.<br><br>Sut mae nodau a gwaith Ymddiriedolaeth Karuna yn adlewyrchu credoau Bwdhaidd ar waith. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **1.6a Credoau am fywyd a marwolaeth – Bwdhaeth** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.6.1a Ystyr bywyd mewn Bwdhaeth<br>1.6.2a Credoau Bwdhaidd am fywyd, marwolaeth ac ailenedigaeth<br>1.6.3a Arferion Bwdhaidd | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.6.1a Ystyr bywyd mewn Bwdhaeth | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau Bwdhaidd am ystyr bywyd:<br>• cyflawni goleuedigaeth (Nirvana) drwy'r Llwybr Wythblyg a dysgeidiaethau eraill<br>• meithrin doethineb, ymddygiad moesegol, a disgyblaeth feddyliol<br>• deall natur dioddefaint a'i achosion. |
| 1.6.2a Credoau Bwdhaidd am fywyd, marwolaeth ac ailenedigaeth | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau Bwdhaidd am fywyd, marwolaeth ac ailenedigaeth:<br>• y cysyniad o karma (Dhammapada 1:1 ac 1:2)<br>• cylch samsara (Dhammapada 1:16)<br>• cysyniad ailenedigaeth (Dhammapada 1:17)<br>• cyflawni Nirvana<br>• gwahanol deyrnasoedd bodolaeth<br>• safbwyntiau'r traddodiad Triratna am 'ailenedigaeth eiliad i eiliad'. |
| 1.6.3a Arferion Bwdhaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Pwysigrwydd arferion angladdau a galaru:<br>• trosglwyddo 'teilyngdod' i'r person sydd wedi marw<br>• defnyddio symbolau i fynegi ystyr<br>• dangos y cysylltiad rhwng y bywyd hwn a bywyd yn y dyfodol<br>• cofio nad diwedd bywyd yw marwolaeth, ond cyfnod o fywyd rhwng bodolaeth ac ailenedigaeth<br>• dathlu a chofio bywyd yr ymadawedig.<br><br>arferion galaru ac angladdau Bwdhaidd:<br>• arferion galaru ac angladdau Mahayana – Japaneaidd a Thibetaidd<br>• arferion Japaneaidd – llafarganu, rhoi enw newydd i'r ymadawedig, amlosgi'r corff a chladdu'r llwch<br>• arferion Tibetaidd – defnyddio Llyfr Tibetaidd y Meirw, amlosgi, claddedigaeth awyr, rhoi offrymau a chynnig bwyd i'r ymadawedig<br>• arferion galaru ac angladdau Theravada – mynachod yn llafarganu, ysgeintio dŵr, clymu dwylo a thraed yr ymadawedig, gosod dillad mynachod ar yr arch ac amlosgiad. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **1.7a Credoau crefyddol yn y gymdeithas gyfoes – Bwdhaeth** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.7.1a Hunaniaeth, perthyn ac arferion Bwdhaidd<br>1.7.2a Bwdhaeth a moesoldeb | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.7.1a Hunaniaeth, perthyn ac arferion Bwdhaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Pwysigrwydd mynegi ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn mewn Bwdhaeth, fel:<br>• perthyn i gymuned Fwdhaidd – y sangha<br>• cael ymdeimlad cyffredin o bwrpas, moesoldeb a chyfeiriad mewn bywyd.<br><br>Mynegi hunaniaeth a pherthyn Bwdhaidd drwy arferion defosiynol:<br>• Arferion ac arwyddocâd tri math gwahanol o fyfyrdod: samatha, vipassana a metta bhavana; Dhammapada 282<br>• Arferion ac arwyddocâd llafarganu; Dhammapada 190<br>• Y defnydd o malau, mantrau a mandalau a'u harwyddocâd.<br><br>Mynegi hunaniaeth a pherthyn Bwdhaidd drwy weithredoedd symbolaidd – pererindod.<br><br>Rhesymau posibl dros gwblhau pererindod:<br>• dangos parch i'r Bwdha am ei dharma a'i esiampl<br>• dysgu mwy am Buddhas a Bodhisattvas drwy ymweld â safleoedd sy'n gysylltiedig â'u bywydau.<br><br>Rôl, arwyddocâd a nodweddion y safleoedd pererindod Bwdhaidd canlynol:<br>• Bodh Gaya<br>• Lumbini. |
| 1.7.2a Bwdhaeth a moesoldeb | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Bwdhaidd am sut i wneud penderfyniadau moesol:<br>• Y Pum Argymhelliad fel rheolau sylfaenol ar gyfer bywyd bob dydd<br>• osgoi'r Tri Gwenwyn – trachwant, anwybodaeth a chasineb<br>• Y Chwe Paramitas (perffeithrwydd) – haelioni, moesoldeb, amynedd, egni, myfyrdod a doethineb.<br><br>Y cysylltiad rhwng karma, aileni a moesoldeb mewn Bwdhaeth. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Crefyddau'r byd**
**b – Hindŵaeth**

<table>
<tr><th colspan="2">1.5b Credoau – Hindŵaeth</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.5.1b Credoau a dysgeidiaethau allweddol mewn Hindŵaeth<br>1.5.2b Cred Hindŵaidd ar waith</td></tr>
<tr><th>Adran</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>1.5.1b Credoau a dysgeidiaethau crefyddol allweddol mewn Hindŵaeth</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau am natur Duw:<br>• Brahman fel un Duw gyda sawl ffurf; Brihadaranyaka Upanishad (391)<br>• Brahman fel yr enaid neu'r ysbryd cyfanfydol, ffynhonnell pob bywyd ac ym mhob peth (Antaryami); Katha Upanishad 5:2; Chandogya Upanishad 3:14.1<br>• Brahman fel Bhagavan<br>• Nirguna Brahman a Saguna Brahman<br>• natur a rôl y Trimurti; Brahma, Vishnu a Shiva; Kurma Purana 1:6, 1:9, 1:26<br>• y cysyniad o avatar; Bhagavad Gita 4:5, 7-8, gan gyfeirio at Vishnu – Rama (Y Dyn Perffaith) a Krishna (y Gwladweinydd Dwyfol)<br>• rôl a phwysigrwydd duwiau a duwiesau eraill i Hindŵiaid – Durga, Ganesh a Saraswati.<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Hindŵaidd am y berthynas rhwng Brahman ac atman (enaid):<br>• yr atman yn ddigyfnewid, yn annistrywiol ac yn dragwyddol; yn union yr un fath ag eneidiau pob peth (Advaita Vedanta); Bhagavad Gita 2:12, 2:17, 18:61 – yn debyg i halen mewn dŵr<br>• yr atman yw creadigrwydd Brahman, mae Brahman yn hollwybodus, hollbwerus ond mae'r enaid yn wahanol i Brahman (Dvaita Vedanta) – fel deigryn a dŵr hallt (endidau ar wahân).<br><br>Y defnydd o destunau sanctaidd a'u pwysigrwydd mewn bywyd bob dydd:<br>• yr Upanishads a'r Vedas.</td></tr>
<tr><td>1.5.2b Cred Hindŵaidd ar waith</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Hindŵaidd allweddol:<br>• dana: rhoi yn hael<br>• karma yoga: gweithredu anhunanol<br>• seva: gwasanaeth anhunanol.<br><br>Enghreifftiau lleol neu genedlaethol cyfoes o gred a ffydd Hindŵaidd ar waith – gwaith cymunedol a gweithredaeth ar sail ffydd.<br><br>Sut mae nodau a gwaith Sewa International yn adlewyrchu credoau Hindŵaidd ar waith.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **1.6b Credoau am fywyd a marwolaeth – Hindŵaeth** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.6.1b Ystyr bywyd mewn Hindŵaeth<br>1.6.2b Credoau Hindŵaidd am fywyd, marwolaeth ac ailymgnawdoliad<br>1.6.3b Arferion Hindŵaidd | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.6.1b Ystyr bywyd mewn Hindŵaeth | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau Hindŵaidd am ystyr bywyd:<br>• Pedwar nod bywyd dynol:<br>  • dharma – dyletswydd foesol<br>  • kama – pleser bydol<br>  • artha – cyfoeth a grym<br>  • moksha – rhyddhad ysbrydol a rhyddhad o gylch samsara. |
| 1.6.2b Credoau Hindŵaidd am fywyd, marwolaeth ac ailymgnawdoliad | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau Hindŵaidd am fywyd, marwolaeth ac ailymgnawdoliad:<br>• yr atman yn wahanol i'r corff corfforol a'r meddwl: Bhagavad Gita 2:222<br>• ailymgnawdoliad: Bhagavad Gita 2:12-13<br>• y cysyniad o samsara: Bhagavad Gita 2:27<br>• moksha: Bhagavad Gita 2:15; Brihadaranyaka Upanishad 4.4.3-6 |
| 1.6.3b Arferion Hindŵaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Pwysigrwydd arferion angladdau a galaru:<br>• defnyddio arwyddion a symbolau i fynegi ystyr ddyfnach<br>• dangos y cysylltiad rhwng y bywyd hwn a bywyd yn y dyfodol<br>• cofio nad diwedd bywyd yw marwolaeth, ond cyfnod o fywyd rhwng bodolaeth ac ailenedigaeth<br>• dathlu a chofio bywyd yr ymadawedig.<br><br>arferion galaru Hindŵaidd:<br>• Tarpana<br>• y cyfnod Shraddha.<br><br>Arferion angladdol Hindŵaidd:<br>• Antyesti<br>• Pinda Daan. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **1.7b Credoau crefyddol yn y gymdeithas gyfoes – Hindŵaeth** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.7.1b Hunaniaeth, perthyn ac arferion Hindŵaidd<br>1.7.2b Hindŵaeth a moesoldeb | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.7.1b Hunaniaeth, perthyn ac arferion Hindŵaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Pwysigrwydd mynegi ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn mewn Hindŵaeth, fel:<br>• perthyn i gymuned Hindŵaidd<br>• cael ymdeimlad cyffredin o bwrpas a chyfeiriad mewn bywyd.<br><br>Mynegi hunaniaeth a pherthyn Hindŵaidd drwy weithredoedd symbolaidd – pererindod.<br><br>Rhesymau posibl dros gwblhau pererindod:<br>• dangos ymrwymiad i Brahman fel gweithred o ymroddiad crefyddol<br>• dysgu mwy am ffigurau Hindŵaidd drwy ymweld â safleoedd sy'n gysylltiedig â'u bywydau<br>• dilyn ôl troed ffigurau Hindŵaidd allweddol<br>• profi ymdeimlad o gymuned.<br><br>Rôl, arwyddocâd a nodweddion y safleoedd pererindod Hindŵaidd canlynol:<br>• Ayodhya<br>• Varanasi (Kashi).<br><br>Mynegi hunaniaeth a pherthyn Hindŵaidd drwy weithredoedd symbolaidd: y Mudiad Bhakti:<br>• Vaishnav bhakti – ymroddiad i Vishnu<br>• Shaiva bhakti – ymroddiad i Shiva a Rudra. |
| 1.7.2b Hindŵaeth a moesoldeb | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>credoau a dysgeidiaethau Hindŵaidd am foesoldeb:<br>• dharma – dyletswydd foesol yn arwain gweithredoedd bob dydd; Bhagavata Purana 1.2.6<br>• Kama – pleser bydol – pleser corfforol, meddyliol ac emosiynol<br>• artha – cyfoeth a grym, digon o bob un i deimlo'n ddiogel<br>• Mae Hindŵiaid yn credu mewn ewyllys rydd a'i gysylltiad â karma<br>• oherwydd anwybodaeth mae Hindŵiaid yn syrthio i Maya – mae cariad at arian, eiddo a theulu hyd yn oed yn ein cadw ynghlwm i'r byd hwn<br>• Mae Hindŵaeth yn annog meithrin rhinweddau dwyfol (Daivi Sampad) ac yn rhybuddio yn erbyn peryglon nodweddion demonig (Asuri Sampad); Bhagavad Gita pennod 16.<br><br>Y cysylltiad rhwng karma, aileni a moesoldeb mewn Hindŵaeth. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Crefyddau'r byd**
**c – Islam**

| **1.5c Credoau – Islam** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.5.1c Credoau a dysgeidiaethau allweddol mewn Islam<br>1.5.2c Cred Islamaidd ar waith | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.5.1c Credoau a dysgeidiaethau allweddol mewn Islam | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau am natur Allah:<br>• un Duw – Allah: tawhid; Qur'an 3:18<br>• rhinweddau Allah yn y Qur'an<br>• 99 enw Allah<br>• mewnfodol<br>• trosgynnol<br>• hael<br>• trugarog<br>• hollalluog<br>• hollwybodus<br>• hollgariadus<br>• hollbresennol.<br><br>Rhesymau dros wahardd delweddau o Allah; Qur'an 42:11 ac arwyddocâd shirk.<br><br>Proffwydoliaeth mewn Islam:<br>• rôl a phwysigrwydd proffwydoliaeth o fewn Islam – Adda, Ibrahim ac Isa<br>• Muhammad fel Sêl y Proffwydi – datguddiad y Qur'an gan Allah, trwy Angel Jibril Qur'an 2:97-98.<br><br>Credoau Islamaidd am yr enaid:<br>• yn tarddu o Allah a'i greadigaeth ddwyfol Ef; Qur'an 32:7-9<br>• wedi'i greu gan Allah a'i anadlu i mewn i'r bod dynol ar adeg cenhedlu; cafodd enaid ei roi i'r dyn cyntaf, Adda, yn y modd hwn; Qur'an 32:8-9.<br><br>Credoau a dysgeidiaethau allweddol Islam:<br>• ymostwng i Allah – bod yn Fwslim, a'r Shahadah fel mynegiant o ffydd<br>• pwysigrwydd y Pum Piler Ffydd<br>• pwysigrwydd y jihad mwyaf.<br><br>Y defnydd o destunau sanctaidd a'u pwysigrwydd mewn bywyd bob dydd:<br>• Qur'an a'r Hadith. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 1.5.2c Cred Islamaidd ar waith | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Dysgeidiaethau a chredoau Islamaidd am gred ar waith:<br>• pwysigrwydd yr Ummah, mae Islam yn annog ymdeimlad o undod; Qur’an 3:110; Qur’an 23:52<br>• mae'r Qur'an a'r Hadithiaid (dywediadau'r Proffwyd Muhammad) yn annog Mwslimiaid i helpu eraill yn fynych; Qur'an 2:195<br>• mae trugaredd yn un o nodweddion Allah a bydd y rhai sy'n dangos trugaredd yn y bywyd hwn yn cael trugaredd gan Allah yn y bywyd nesaf; Sunan al-Tirmidhī 1924<br>• Mae gan Fwslimiaid ddyletswydd i roi ffydd ar waith; Qur’an 5:2; Qur’an 9:60.<br><br>Enghreifftiau lleol neu genedlaethol cyfoes o gred a ffydd Islamaidd ar waith – gwaith cymunedol a gweithredaeth ar sail ffydd.<br><br>Sut mae nodau a gwaith Islamic Relief UK yn adlewyrchu credoau Islamaidd ar waith. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **1.6c Credoau am fywyd a marwolaeth – Islam** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.6.1c Ystyr bywyd mewn Islam<br>1.6.2c Credoau Islamaidd am fywyd a marwolaeth<br>1.6.3c Arferion Islamaidd | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.6.1c Ystyr bywyd mewn Islam | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau Islamaidd am ystyr bywyd:<br>• ymostwng i ewyllys Allah; Qur'an 33:35<br>• cyflawni gweithredoedd addoli; Qur'an 40:65 a chyfiawnder; Qur'an 18:30<br>• paratoi ar gyfer Dydd y Farn (Qur'an 84:25) a gwasanaethu dynoliaeth; Qur'an 3:185. |
| 1.6.2c Credoau Islamaidd am fywyd a marwolaeth | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau Islamaidd am fywyd ar ôl marwolaeth (Akhirah):<br>• mae'r enaid yn aros am farn ar ôl marwolaeth yn Barzakh; Qur'an 23:100<br>• Dydd y Farn; Qur'an 3:30<br>• Tân uffern (Jahannam); Qur'an 2:24<br>• Paradwys (Jannah); Qur'an 31:8<br>• rhagordeiniad (Al-Qadr); Qur'an 87:2<br>• atgyfodiad; Qur'an 46:33. |
| 1.6.3c Arferion Islamaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Pwysigrwydd arferion angladdau a galaru:<br>• traddodi corff person i Allah<br>• diolch i Allah am fywyd y person hwnnw<br>• dathlu a chofio bywyd yr ymadawedig<br>• defnyddio arwyddion a symbolau i fynegi ystyr ddyfnach<br>• dangos y cysylltiad rhwng y bywyd hwn a chredoau Islamaidd am fywyd ar ôl marwolaeth.<br><br>arferion galaru Islamaidd:<br>• ymroddiad cynyddol<br>• derbyn ymwelwyr a chydymdeimlad<br>• osgoi dillad a gemwaith addurniadol<br>• gwisgo dillad gwyn<br>• y cyfnod hiraf o alaru.<br><br>Arferion angladdau Islamaidd:<br>• Ghusl Mayyit<br>• Kafan<br>• Salat al-Janazah<br>• gwisg angladdol<br>• claddedigaeth yn wynebu Makkah o fewn 24 awr<br>• perthnasau yn perfformio dua ar lan y bedd<br>• rhoi i elusen (sadaqah) ar ran yr ymadawedig. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **1.7c Credoau crefyddol yn y gymdeithas gyfoes – Islam** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.7.1c Hunaniaeth, perthyn ac arferion Islamaidd<br>1.7.2c Islam a moesoldeb | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.7.1c Hunaniaeth, perthyn ac arferion Islamaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Pwysigrwydd mynegi ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn i Fwslimiaid, fel:<br>• perthyn i gymuned addoli<br>• ymdeimlad a rennir o bwrpas a chyfeiriad mewn bywyd.<br><br>Mynegi hunaniaeth a pherthyn Islamaidd drwy weithredoedd symbolaidd – pererindod.<br><br>Rhesymau posibl dros gwblhau pererindod:<br>• dangos ymrwymiad i Allah fel gweithred o ymroddiad crefyddol<br>• dysgu mwy am ffigurau Islamaidd drwy ymweld â safleoedd sy'n gysylltiedig â'u bywydau<br>• dilyn ôl troed ffigurau allweddol Islam<br>• profi ymdeimlad o gymuned.<br><br>Rôl, arwyddocâd a nodweddion y safleoedd pererindod Islamaidd canlynol yn ystod Hajj:<br>• Mynydd Araffat<br>• y pileri yn Mina.<br><br>Mynegi hunaniaeth a pherthyn Islamaidd drwy weithredoedd symbolaidd – dilyn arferion gwisg a deiet:<br>• y burkha<br>• yr hijab<br>• y niqab<br>• bwydydd halal. |
| 1.7.2c Islam a moesoldeb | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Islamaidd o ran sut i wneud penderfyniadau moesol:<br>• ufuddhau i orchmynion dwyfol; Qur’an 7:28; Qur’an 54:49-55<br>• dilyn dysgeidiaethau moesegol y Proffwyd Muhammad; Qur’an 4:59<br>• cyfraith sharia fel y set ddelfrydol o reolau; Qur'an 45:18 defnyddio'r Qur'an; Qur'an 38:29 neu Hadith fel ffynonellau moesoldeb<br>• defnyddio cydwybod; Qur’an 75:1-2.<br><br>Moesoldeb a barn Ddwyfol mewn bywyd ar ôl marwolaeth:<br>• Barnu eneidiau ar Ddydd y Farn; Qur’an 6:160-164; Qur’an 16:90; Qur’an 16:97; Qur’an 21:47. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Crefyddau'r byd**
**ch – Iddewiaeth**

| **1.5ch Credoau – Iddewiaeth** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.5.1ch Credoau a dysgeidiaethau allweddol mewn Iddewiaeth<br>1.5.2ch Cred Iddewig ar waith | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.5.1ch Credoau a dysgeidiaethau allweddol mewn Iddewiaeth | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Iddewig am natur Duw:<br>• Creawdwr ex nihilo; Genesis 1:1-12<br>• Un yw Duw<br>• trosgynnol; Eseia 55:8-9<br>• trugarog<br>• tragwyddol<br>• barnwr<br>• deddfwr<br>• hollalluog<br>• hollwybodus<br>• hollgariadus<br>• hollbresennol.<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Iddewig am y Meseia (Mashiach) a'r Oes Feseianaidd (a gysylltir yn aml ag Olam ha-ba):<br>• yn ddisgynnydd i'r Brenin Dafydd; Jeremeia 23:5<br>• Yr Un Eneiniog a'r Barnwr; Eseia 2:1-4<br>• yr Oes Feseianaidd; Eseia 11:9<br>• safbwyntiau gwahanol Uniongred a Diwygiedig am y Meseia<br>• yr Oes Feseianaidd (Olam Ha-Ba).<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Iddewig am yr enaid:<br>• yr enaid (nefesh) wedi'i greu ar ddelw Duw; Genesis 1:27<br>• gwreichionen ddwyfol wedi'i chreu gan Dduw: Genesis 2:7<br>• tragwyddol a throsgynnol, mae gan fodau dynol resymoledd ac ewyllys rydd.<br><br>Credoau a dysgeidiaethau allweddol mewn Iddewiaeth:<br>• gweddi Shema; Deuteronomium 6:4-5<br>• cyfamodau:<br>    • Cyfamod Abraham; hunaniaeth, monotheïstiaeth, enwaediad a Gwlad yr Addewid, Genesis 12:1-3, 17:6-8, 17:11-14<br>    • Cyfamod Moses; cyfraith, gorchmynion, hunaniaeth, Gwlad yr Addewid, Exodus 3:11-15<br>    • pwysigrwydd y Cyfamodau i Iddewon heddiw. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | Y defnydd o destunau sanctaidd a'u pwysigrwydd mewn bywyd bob dydd:<br>• safbwyntiau gwahanol Iddewiaeth Uniongred a Diwygiedig am y Torah, y Tenakh a'r Talmud. |
| 1.5.2ch Cred Iddewig ar waith | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Iddewig allweddol:<br>• Gemilut Hasadim; gweithredoedd o garedigrwydd cariadus – cyflawni gweithredoedd da i adlewyrchu tosturi Duw; Pirkei Avot 1:2 o'r Mishna<br>• Caiff Iddewon eu cyfarwyddo gan Dduw i helpu'r tlawd a'r anghenus; Deuteronomium 15:11<br>• Tikkun Olam; mae adfer y byd yn cynnwys y syniad o gyfiawnder cymdeithasol.<br><br>Enghreifftiau lleol neu genedlaethol cyfoes o gred a ffydd Iddewig ar waith – gwaith cymunedol a gweithredaeth ar sail ffydd.<br><br>Sut mae nodau a gwaith Diwrnod Mitzvah yn adlewyrchu credoau Iddewig ar waith. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

<table>
<tr><th colspan="2">1.6ch Credoau am fywyd a marwolaeth – Iddewiaeth</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.6.1ch Ystyr bywyd mewn Iddewiaeth<br>1.6.2ch Credoau Iddewig am fywyd a marwolaeth<br>1.6.3ch Arferion Iddewig</td></tr>
<tr><td>Adran</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>1.6.1ch Ystyr bywyd mewn Iddewiaeth</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau Iddewig am ystyr bywyd:<br>• byw yn unol â'r cyfamod â Duw<br>• dilyn mitzvot y Torah<br>• ceisio cyfiawnder, tosturi, a dysgu gydol oes<br>• meithrin cysylltiadau teuluol a chymunedol cryf.</td></tr>
<tr><td>1.6.2ch Credoau Iddewig am fywyd a marwolaeth</td><td>Credoau Iddewig am fywyd ar ôl marwolaeth<br>• Gan Eden (paradwys)<br>• Gehenna (uffern)<br>• Atgyfodiad; corfforol (Uniongred) ac ysbrydol (Diwygiedig)<br>• Olam Ha-Ba (y byd sydd i ddod – mae bywyd ar ôl marwolaeth hefyd yn aml yn gysylltiedig â'r Oes Feseianaidd)<br>• Sheol (lle mae eneidiau'n cael eu glanhau a'u puro).</td></tr>
<tr><td>1.6.3ch Arferion Iddewig</td><td>Pwysigrwydd arferion angladdau a galaru:<br>• traddodi corff person i Dduw<br>• diolch i Dduw am fywyd y person hwnnw<br>• dathlu a chofio bywyd yr ymadawedig<br>• defnyddio arwyddion a symbolau i fynegi ystyr ddyfnach<br>• dangos y cysylltiad rhwng y bywyd hwn a chredoau Iddewig am fywyd ar ôl marwolaeth.<br><br>arferion galaru Iddewig:<br>• aninut<br>• shiva<br>• shloshim<br>• yarzheit.<br><br>Arferion angladdau Iddewig:<br>• taharah<br>• y gwasanaeth angladdol.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| 1.7ch Credoau crefyddol yn y gymdeithas gyfoes – Iddewiaeth | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.7.1ch Hunaniaeth, perthyn ac arferion Iddewig<br>1.7.2ch Iddewiaeth a moesoldeb | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.7.1ch Hunaniaeth, perthyn ac arferion Iddewig | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Pwysigrwydd mynegi ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn i Iddewon, fel:<br>• perthyn i gymuned addoli<br>• rhannu ymdeimlad o bwrpas a chyfeiriad mewn bywyd.<br><br>Mynegi hunaniaeth a pherthyn Iddewig drwy weithredoedd symbolaidd – mynd i leoedd arwyddocaol.<br><br>Rhesymau posibl dros fynd i fannau arwyddocaol:<br>• dangos ymrwymiad i Dduw fel gweithred o ymroddiad crefyddol<br>• dysgu mwy am ffigurau Iddewig drwy ymweld â safleoedd sy'n gysylltiedig â'u bywydau<br>• dilyn ôl troed ffigurau allweddol Iddewiaeth<br>• profi ymdeimlad o gymuned.<br><br>Rôl, arwyddocâd a nodweddion y mannau arwyddocaol canlynol i Iddewon:<br>• Y Mur Gorllewinol,<br>• Yad Vashem.<br><br>Mynegi hunaniaeth a pherthyn Iddewig drwy weithredoedd symbolaidd – dilyn arferion gwisg a deiet:<br>• kippah<br>• tefillin<br>• tallit<br>• bwyd kosher. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 1.7.2ch Iddewiaeth a moesoldeb | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Dysgeidiaethau a chredoau Iddewig am sut i wneud penderfyniadau moesol:<br>• ufuddhau i orchmynion dwyfol – y Deg Gorchymyn sy'n ffurfio rhan o'r cyfamod; Exodus 20:1-17<br>• y 613 Mitzvot (Safbwyntiau Uniongred a Diwygiedig)<br>• defnyddio cydwybod (matzpun) ar y cyd â'r Torah<br>• tueddiadau da (yetzer ha tov) yn erbyn tueddiadau drwg (yetzer hara) a'r ewyllys rydd i ddod i'r farn honno<br>• dysgeidiaeth foesegol y Torah, y Tenakh, a'r Talmud (safbwyntiau Uniongred a Diwygiedig).<br><br>Moesoldeb a barn Ddwyfol mewn bywyd ar ôl marwolaeth:<br>• Duw yn barnu dy holl weithredoedd; Llyfr y Pregethwr 12:14<br>• amser o ofid ond barn ddwyfol hefyd; Daniel 12:1-2. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Crefyddau'r byd**
**d – Sikhiaeth (Sikhi)**

| **1.5d Credoau Sikhiaeth (Sikhi)** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.5.1d Credoau a dysgeidiaethau allweddol mewn Sikhiaeth<br>1.5.2d Cred Sikhaidd ar waith | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.5.1d Credoau a dysgeidiaethau allweddol mewn Sikhiaeth | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau am natur Duw:<br>• yr enwau gwahanol ar Dduw; Guru Granth Sahib 877<br>• fel maen nhw i'w cael yn y Mool Mantra – Ik Onkar (un Duw); Sat Nam (gwirionedd yw ei enw), Nirankar (di-ffurf); anfarwol, heb ofn; heb gasineb, Nirgun; Guru Granth Sahib 290, Sargun; Guru Granth Sahib 294; hunan-oliwiedig y gwir Guru<br>• hollalluog<br>• hollwybodus<br>• hollgariadus<br>• hollbresennol<br>• hunan-ddadlennol; Guru Granth Sahib 1<br>• yn ddi-rywedd<br>• Waheguru (Guru rhyfeddol).<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Sikhaidd am Waheguru fel Creawdwr:<br>• y byd wedi'i greu drwy ewyllys ddwyfol (hukam); Guru Granth Sahib 1399<br>• wedi creu'r bydysawd a phopeth sydd ynddo; mae'n cynnal popeth sy'n bodoli; Guru Granth Sahib 294<br>• mae Waheguru yn bodoli y tu hwnt ac ar wahân i'r bydysawd (Nirgun a Sargun).<br><br>credoau Sikhaidd am yr atma (enaid ddynol):<br>• yr enaid fel hanfod dwyfol; gwreichionyn Waheguru; yn byw ym mhopeth byw – anifeiliaid a bodau dynol<br>• bodau dynol yw'r math uchaf o greaduriaid byw; pur; trosgynnol, tragwyddol<br>• daw'r atma o'r Waheguru ac mae'n dychwelyd ato.<br><br>Credoau a dysgeidiaeth allweddol o:<br>• Guru Nanak<br>• Guru Gobind Singh.<br><br>Y defnydd o destunau sanctaidd a'u pwysigrwydd mewn bywyd bob dydd:<br>• y Guru Granth Sahib. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 1.5.2d Cred Sikhaidd ar waith | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Sikhaidd allweddol:<br>• mae pob bod dynol yn gyfartal; Guru Granth Sahib 272:12-13<br>• seva: gwasanaeth anhunanol<br>• taan; gwasanaeth corfforol<br>• maan; gwasanaeth meddyliol<br>• dhan; gwasanaeth materol.<br><br>Enghreifftiau lleol neu genedlaethol cyfoes o gred a ffydd Sikhaidd ar waith – gwaith cymunedol a gweithredaeth ar sail ffydd.<br><br>Sut mae nodau a gwaith Khalsa Aid yn adlewyrchu credoau Sikhaidd ar waith. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **1.6d Credoau am fywyd a marwolaeth – Sikhiaeth (Sikhi)** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.6.1d Ystyr bywyd mewn Sikhiaeth<br>1.6.2d Credoau Sikhaidd am fywyd a marwolaeth<br>1.6.3d Arferion Sikhaidd | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.6.1d Ystyr bywyd mewn Sikhiaeth | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau Sikhaidd am ystyr bywyd:<br>• gurmurkh – byw mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar Waheguru fel mae wedi'i nodi yn Guru Grath Sahib<br>• ymarfer seva a derbyn yr ewyllys ddwyfol (hukam)<br>• cyflawni uniad â Waheguru trwy fyw bywyd cyfiawn ac ymroddiad<br>• cyflawni mukti. |
| 1.6.2d Credoau Sikhaidd am fywyd a marwolaeth | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau Sikhaidd am fywyd, marwolaeth ac ailymgnawdoliad:<br>• karma<br>• ailymgnawdoliad<br>• samsara; Guru Granth Sahib 13:11-12<br>• mukti. |
| 1.6.3d Arferion Sikhaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Pwysigrwydd arferion angladdau a galaru:<br>• diolch i'r Waheguru am fywyd y person hwnnw<br>• dathlu a chofio bywyd y person a'i enaid yn aduno â Duw<br>• defnyddio arwyddion a symbolau i fynegi ystyr ddyfnach<br>• dangos y cysylltiad rhwng y bywyd hwn a chredoau Sikhaidd am fywyd, marwolaeth ac ailymgnawdoliad<br>• cofio nad diwedd bywyd yw marwolaeth, ond cyfnod o fywyd rhwng bodolaeth ac ailenedigaeth.<br><br>arferion galaru Sikhaidd:<br>• dim arferion galaru ffurfiol ond ceir mynegiant o alar<br>• darparu amgylchedd cefnogol i'r rhai sy'n galaru<br>• gweithredoedd elusennol er cof am yr ymadawedig, fel trefnu langar neu drwy roddion i'r gymuned, gan adlewyrchu'r gwerth Sikhaidd seva (gwasanaeth anhunanol).<br><br>Arferion angladdol Sikhaidd:<br>• Antam Sanskaar<br>• Amlosgi<br>• Antim Ardas<br>• Seremoni'r Bhog. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| 1.7d Credoau crefyddol yn y gymdeithas gyfoes – Sikhiaeth | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.7.1d Hunaniaeth, perthyn ac arferion Sikhaidd<br>1.7.2d Sikhiaeth a moesoldeb | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.7.1d Hunaniaeth, perthyn ac arferion Sikhaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Pwysigrwydd mynegi ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn i Sikhiaid, fel:<br>• perthyn i gymuned addoli<br>• rhannu ymdeimlad o bwrpas a chyfeiriad mewn bywyd.<br><br>Mynegi hunaniaeth a pherthyn Sikhaidd drwy weithredoedd symbolaidd – pererindod.<br><br>Rhesymau posibl dros bererindod:<br>• dangos ymrwymiad i Waheguru fel gweithred o ymroddiad crefyddol<br>• dysgu mwy am ffigurau Sikhaidd drwy ymweld â safleoedd sy'n gysylltiedig â'u bywydau<br>• dilyn ôl troed ffigurau allweddol mewn Sikhiaeth<br>• profi ymdeimlad o gymuned.<br><br>Rôl, arwyddocâd a nodweddion y safleoedd pererindod Sikhaidd canlynol:<br>• Amritsar<br>• Anandpur Sahib.<br><br>Mynegi hunaniaeth a pherthyn Sikhaidd drwy weithredoedd symbolaidd – y 5K:<br><br>Arwyddocâd y 5K:<br>• Kesh<br>• Kara<br>• Kanga<br>• Kaccha<br>• Kirpan. |
| 1.7.2d Sikhiaeth a moesoldeb | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Sikhaidd am sut i wneud penderfyniadau moesol:<br>• defnyddio seva fel canllaw i wasanaeth moesegol – cyfiawnder cymdeithasol allan o gariad at Waheguru a dynoliaeth<br>• Kirat Karo (gweithio'n onest) fel un o dri philer Sikhiaeth<br>• osgoi'r 5 pechod a datblygu'r 5 rhinwedd er mwyn symud ymlaen ar y llwybr ysbrydol tuag at undod (mukti) gyda Waheguru.<br><br>Y cysylltiad rhwng karma, aileni a moesoldeb mewn Sikhiaeth. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Credoau anghrefyddol**

| **1.8** | **Credoau am fywyd a marwolaeth – Cristnogaeth a chredoau anghrefyddol** |
|---|---|
| 1.8.1 Safbwyntiau anghrefyddol am ystyr bywyd<br>1.8.2 Safbwyntiau anghrefyddol am fywyd a marwolaeth<br>1.8.3 Arferion anghrefyddol | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.8.1 Safbwyntiau anghrefyddol am ystyr bywyd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am ystyr bywyd, gan gynnwys:<br>• nid yw pawb yn gytûn ar ystyr bywyd<br>• mae unigolion yn pennu ystyr eu bywyd eu hunain<br>• dylai pobl fod yn rhydd i fyw eu bywydau cyn belled nad ydyn nhw'n achosi niwed i eraill<br>• caiff rhai pobl ymdeimlad o ystyr yn eu bywydau trwy ymgysylltu â'r byd naturiol, er enghraifft, a threulio amser ym myd natur<br>• Credoau dyneiddiol am yr hyn sy'n rhoi ystyr i fywyd, gan gynnwys ymreolaeth, byw'n foesegol, cyfrifoldeb, mynd ar drywydd boddhad a mynd ar drywydd hapusrwydd. |
| 1.8.2 Safbwyntiau anghrefyddol am fywyd a marwolaeth | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am fywyd a marwolaeth, gan gynnwys:<br>• marwolaeth fel diwedd bodolaeth<br>• dim cosb na gwobr yn y dyfodol<br>• arwyddocâd a gwerth bod â dim cred yn yr enaid neu fywyd ar ôl marwolaeth. |
| 1.8.3 Arferion anghrefyddol | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Arferion galaru anghrefyddol, gan gynnwys:<br>• dim arferion galaru penodol, cytunedig<br>• galaru fel mynegiant o alar<br>• dathlu a chofio bywyd yr ymadawedig<br>• galaru fel ffordd o gynnig amgylchedd cefnogol i'r rhai sy'n galaru.<br><br>Arferion angladdol anghrefyddol, gan gynnwys:<br>• dim strwythur claddu neu amlosgi penodol, cytunedig<br>• gall gweinyddwr arwain gwasanaeth<br>• gellir rhoi canmolawd fel dathliad o fywyd<br>• fel arfer mae cerddoriaeth yn cael ei defnyddio yn ystod y gwasanaeth. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **1.9 Credoau crefyddol ac anghrefyddol yn y gymdeithas gyfoes** | |
|---|---|
| 1.9.1 Safbwyntiau anghrefyddol am hunaniaeth, perthyn ac arferion<br>1.9.2 Safbwyntiau anghrefyddol am foesoldeb | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.9.1 Safbwyntiau anghrefyddol am hunaniaeth, perthyn ac arferion | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am hunaniaeth, perthyn ac arferion, gan gynnwys:<br>• arwyddocâd a gwerth hunaniaeth a pherthyn heb grefydd<br>• ffyrdd y gall pobl anghrefyddol fynegi ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn fel bod yn rhan o elusennau a sefydliadau sy'n hybu achosion da. |
| 1.9.2 Safbwyntiau anghrefyddol am foesoldeb | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Ffyrdd y mae credinwyr anghrefyddol yn gwneud penderfyniadau moesol, gan gynnwys:<br>• defnyddio cydwybod<br>• defnyddio rheswm ac ewyllys rydd<br>• y weithred ei hun (absoliwtiaeth)<br>• y sefyllfa (perthynoliaeth) lle mae'r weithred yn cael ei chyflawni a chanlyniadau (canlyniadaeth) i hynny. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 2

**Crefydd a pherthnasoedd**

Math o Asesiad: Asesiad di-arholiad (6 awr)
20% o'r cymhwyster
60 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sy'n ymwneud â pherthnasoedd
- archwilio ffynonellau gwybodaeth am safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol am berthnasoedd
- dadansoddi a gwerthuso safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol gwahanol am berthnasoedd
- adfyfyrio ar werthoedd a chredoau personol sy'n ymwneud â pherthnasoedd.

Rhaid i ddysgwyr gwblhau tasgau sy'n seiliedig ar y **ddwy** grefydd a astudiwyd ym mhob uned arall (Cristnogaeth neu Gristnogaeth Gatholig ac un o grefyddau'r byd), a safbwyntiau anghrefyddol.

**Meysydd cynnwys**

Yn y uned hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

| **2.1 Crefydd a pherthnasoedd** | |
|---|---|
| 2.1.1 Credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sy'n ymwneud â pherthnasoedd<br>2.1.2 Tebygrwydd a gwahaniaethau mewn safbwyntiau am berthnasoedd | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 2.1.1 Credoau, dysgeidiaethau, arferion a safbwyntiau sy'n ymwneud â pherthnasoedd | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• credoau, dysgeidiaethau, arferion a safbwyntiau crefyddol sy'n ymwneud â pherthnasoedd<br>• safbwyntiau anghrefyddol am berthnasoedd.<br><br>Bydd dysgwyr yn canolbwyntio ar un o ddwy thema a osodir yn flynyddol gan CBAC o'r rhestr ganlynol:<br><br>a) Priodas, godineb, ysgariad ac ailbriodi<br>b) Dulliau artiffisial o atal cenhedlu a chynllunio teulu'n naturiol<br>c) Cyd-fyw a rhyw cyn priodi a thu allan i briodas<br>d) Perthnasoedd un rhyw, partneriaethau sifil a phriodas un rhyw<br>e) Perthnasoedd rhyng-ffydd a phriodas y tu allan i'r traddodiad crefyddol<br>f) Rolau o fewn y teulu, gan gynnwys rolau rhywedd o fewn perthnasoedd<br>g) Magwraeth grefyddol, seremonïau plentyndod ac ysgolion ar sail ffydd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 2.1.2 Tebygrwydd a gwahaniaethau mewn safbwyntiau am berthnasoedd | Dylai dysgwyr ddeall y tebygrwydd a'r gwahaniaethau mewn credoau, dysgeidiaethau, arferion a safbwyntiau sy'n ymwneud â pherthnasoedd, gan gynnwys:<br>• rhwng crefyddau gwahanol<br>• rhwng safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol.<br><br>Dylai dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o:<br>• y newid o ran cred grefyddol yng nghyd-destun perthnasoedd<br>• lle y bo'n briodol, newidiadau perthnasol i gyfraith y DU sy'n gysylltiedig â pherthnasoedd<br>• sut mae'r newid o ran cred grefyddol a newidiadau i gyfraith berthnasol y DU, lle bo'n briodol, yn rhyng-gysylltiedig. |

| **2.2 Sgiliau Astudiaethau Crefyddol** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.2.1 Dewis neu gynhyrchu ffynonellau addas<br>2.2.2 Defnyddio ffynonellau i gefnogi barn<br>2.2.3 Adfyfyrio ar werthoedd a chredoau personol | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 2.2.1 Dewis neu gynhyrchu ffynonellau addas | Dylai dysgwyr allu:<br>• dewis neu gynhyrchu ffynonellau addas i gael mewnwelediad i safbwyntiau a phrofiadau crefyddol ac anghrefyddol<br>• esbonio rhesymau perthnasol dros ddewis ffynonellau, fel:<br>  ◦ darparu gwybodaeth glir, wedi'i hategu gan resymu a/neu dystiolaeth<br>  ◦ profi pa mor ddibynadwy yw ffynhonnell arall gafodd ei defnyddio<br>  ◦ rhoi safbwynt gwahanol er mwyn gallu deall yn well<br>  ◦ helpu i leihau unrhyw duedd<br>  ◦ cynnig math gwahanol o ffynhonnell er mwyn gallu deall yn well<br>  ◦ rhoi tystiolaeth o fyw profiad. |
| 2.2.2 Defnyddio ffynonellau i gefnogi barn | Dylai dysgwyr allu defnyddio ffynonellau perthnasol:<br>• dadansoddi a gwerthuso safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol am berthnasoedd<br>• llunio barn. |
| 2.2.3 Adfyfyrio ar werthoedd a chredoau personol | Dylai dysgwyr allu:<br>• cyfiawnhau eu gwerthoedd a'u credoau personol sy'n ymwneud â pherthnasoedd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 3

**Rolau, hawliau a chyfrifoldebau**

Math o Asesiad: Arholiad ysgrifenedig (1 awr 15 munud)
30% o'r cymhwyster
60 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- archwilio credoau, arferion a bydolygon crefyddol ac anghrefyddol allweddol
- datblygu dealltwriaeth o'r gwahanol safbwyntiau a dehongliadau am yr hyn sy'n ein gwneud yn ddynol, gofalu am y byd, hawliau anifeiliaid, rhyddid mynegiant crefyddol a moeseg feddygol
- archwilio ffynonellau awdurdod a systemau moesegol sy'n llunio safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol am yr hyn sy'n ein gwneud yn ddynol, gofalu am y byd, hawliau anifeiliaid, rhyddid mynegiant crefyddol a moeseg feddygol.

Mae’r uned wedi’i rhannu’n dair rhan:

- Safbwyntiau Cristnogol neu safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig
  Dewiswch **un** o’r opsiynau canlynol:
  - a – Safbwyntiau Cristnogol
  - b – Safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig

- Safbwyntiau crefyddau'r byd
  Dewiswch **un** o’r opsiynau canlynol:
  - a – Safbwyntiau Bwdhaidd
  - b – Safbwyntiau Hindŵaidd
  - c – Safbwyntiau Islamaidd
  - ch – Safbwyntiau Iddewig
  - d – Safbwyntiau Sikhaidd (Sikhi)

- Safbwyntiau anghrefyddol – mae'n rhaid i bob ymgeisydd astudio safbwyntiau anghrefyddol.

Bydd safbwyntiau anghrefyddol yn cael eu hasesu mewn perthynas â safbwyntiau Cristnogol a safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Meysydd cynnwys**
**Safbwyntiau Cristnogol neu safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig**
**a – Safbwyntiau Cristnogol**

| **3.1a Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: Stiwardiaeth o'r ddaear – Safbwyntiau Cristnogol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.1.1a Perthynas y ddynoliaeth â'r byd naturiol – safbwyntiau Cristnogol<br>3.1.2a Hawliau anifeiliaid – safbwyntiau Cristnogol | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.1.1a Perthynas y ddynoliaeth â'r byd naturiol – safbwyntiau Cristnogol | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau, dysgeidiaethau ac arferion Cristnogol am berthynas dynoliaeth â'r byd naturiol:<br>• yn seiliedig ar y gred bod Duw wedi creu'r byd ex nihilo; Genesis 1:2, ac mae bodau dynol wedi'u creu ar ddelw Duw; Genesis 1:26<br>• mae bodau dynol wedi cael rheolaeth fel rhan o gynllun Duw – awdurdod; Genesis 1:26-28; Salmau 8:6<br>• mae bodau dynol wedi cael dyletswydd unigryw, a roddwyd gan Dduw i amddiffyn y greadigaeth – stiwardiaeth; Genesis 2:15<br>• mae stiwardiaeth hefyd yn awgrymu defnyddio adnoddau naturiol yn ddoeth ac yn gynaliadwy; Lefiticus 25:8-25.<br><br>Sut mae nodau a gwaith A Rocha UK yn adlewyrchu credoau Cristnogol am stiwardiaeth. |
| 3.1.2a Hawliau anifeiliaid – safbwyntiau Cristnogol | Credoau, dysgeidiaethau ac arferion Cristnogol am hawliau anifeiliaid:<br>• cafodd anifeiliaid eu creu gan Dduw a Datganodd fod pob creadigaeth yn 'dda iawn'; Genesis 1:31<br>• mae Duw yn rhoi awdurdod i fodau dynol dros anifeiliaid; Genesis 1:26-28<br>• stiwardiaeth – disgwylir i fodau dynol ofalu am fywyd anifeiliaid a'u rheoli'n ddoeth ac yn drugarog, Diarhebion 12:10; Exodus 20:10.<br><br>Safbwyntiau Cristnogol am ddefnyddio anifeiliaid er budd dynol:<br>• Genesis 1:26-28 – dehongliadau gwahanol o'r cysyniadau o 'awdurdod' a 'stiwardiaeth'<br>• cydbwyso defnyddio anifeiliaid er budd pobl ac osgoi niwed diangen; Mathew 10:31; Diarhebion 12:10<br>• defnyddio anifeiliaid ar gyfer bwyd; Genesis 9:3<br>• llysieuiaeth neu feganiaeth yn seiliedig ar ddysgeidiaethau fel Genesis 1:26-28.<br><br>Safbwyntiau Cristnogol am y defnydd o anifeiliaid mewn ymchwil gwyddonol a meddygol:<br>• hanfodol ar gyfer cynnydd iechyd a llesiant bodau dynol<br>• rhaid ceisio lleihau dioddefaint i'r eithaf<br>• galw am reoliadau caeth i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn drugarog<br>• cefnogi datblygu dulliau eraill yn lle profi ar anifeiliaid (fel modelu cyfrifiadurol). |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | Sut mae nodau a gwaith Christian Vegetarians a Vegans UK yn adlewyrchu credoau Cristnogol am hawliau anifeiliaid. |

| **3.2a Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: y natur ddynol a'r hawl i fywyd – Cristnogaeth** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.2.1a Yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol – safbwyntiau Cristnogol<br>3.2.2a Moeseg feddygol: erthyliad ac ewthanasia – safbwyntiau Cristnogol | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.2.1a Yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol – safbwyntiau Cristnogol | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>credoau a dysgeidiaethau Cristnogol am yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol:<br>• wedi ein creu ar ddelw Duw; Genesis 1:26-27<br>• yn meddu ar enaid, dimensiwn ysbrydol; Mathew 10:28; Llyfr y Pregethwr 12:7<br>• yn meddu ar ymreolaeth – ewyllys rydd a chyfrifoldeb moesol; Genesis 3; Rhufeiniaid 2:14-15<br>• yn cwympo i bechod, ond rhoddir cyfle am achubiaeth drwy Iesu – Ioan 3:16, |
| 3.2.2a Moeseg feddygol: erthyliad ac ewthanasia – safbwyntiau Cristnogol | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>safbwyntiau Cristnogol o ran pryd mae bywyd yn dechrau:<br>• i lawer, mae bywyd dynol yn dechrau ar adeg cenhedlu<br>• ar adeg cenhedlu, mae'r embryo yn fod dynol gydag urddas a gwerth yn gynhenid; Salmau 139:13-16<br>• mae nifer lleiafrifol o Gristnogion yn credu bod personoldeb neu fywyd dynol llawn yn dechrau ar adeg genedigaeth.<br><br>credoau a dysgeidiaethau Cristnogol am erthyliad:<br>• egwyddor sancteiddrwydd bywyd – wedi ein creu gan Dduw ar ei ddelw ef; Genesis 1:26<br>• mae llawer yn gwrthwynebu erthyliad, gan ystyried mai cymryd bywyd diniwed yw hynny; Exodus 20:13 mae gan Dduw gynllun ar gyfer pob bywyd dynol ac mae erthyliad yn atal hyn rhag digwydd; Jeremeia 1:5<br>• gall rhai dderbyn erthyliad mewn amgylchiadau eithriadol penodol<br>• mae rhai Cristnogion yn eirioli dros ddulliau eraill yn lle erthyliad, fel mabwysiadu.<br><br>credoau a dysgeidiaethau Cristnogol am ewthanasia:<br>• egwyddor sancteiddrwydd bywyd – wedi ein creu gan Dduw ar ei ddelw ef; Genesis 1:26<br>• dim ond Duw ddylai benderfynu pryd ddylai bywyd ddod i ben<br>• mae llawer yn gwrthwynebu ewthanasia gweithredol yn gryf gan ystyried bod hynny'n dod â bywyd sydd wedi'i roi gan Dduw i ben; Exodus 20:13<br>• mae gofal lliniarol yn gyfle i ddangos cariad a thosturi; Galatiaid 6:2<br>• mae rhai'n cefnogi ewthanasia goddefol ar sail tosturiol<br>• mae rhai'n pryderu am y ddadl 'llethr llithrig'. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **3.3a Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: rhyddid mynegiant crefyddol a'r defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Cristnogol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.3.1a Rhyddid mynegiant crefyddol – safbwyntiau Cristnogol<br>3.3.2a Y defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Cristnogol | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.3.1a Rhyddid mynegiant crefyddol – safbwyntiau Cristnogol | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>credoau a dysgeidiaethau Cristnogol am ryddid mynegiant crefyddol:<br>• Y Comisiwn Mawr; Mathew 28:19–20<br>• yn rhan o'r ewyllys rydd a roddwyd gan Dduw i ddynoliaeth<br>• pwysigrwydd bod gan bobl o grefyddau eraill yr un hawl i fynegiant crefyddol; Mathew 7:12<br>• cefnogi'r hawl i fynegiant crefyddol oherwydd erledigaeth hanesyddol a chyfoes yn erbyn Cristnogion<br>• dylid caniatáu mynegiant crefyddol ar bob ffurf mewn mannau cyhoeddus; Mathew 5:14-16. |
| 3.3.2a Y defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Cristnogol | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>credoau a dysgeidiaethau Cristnogol am y defnydd o gyfoeth personol:<br>• yn gysylltiedig â'r cysyniad o stiwardiaeth<br>• dylai'r defnydd o gyfoeth adlewyrchu pwrpasau a gwerthoedd Duw<br>• degymiad fel arfer traddodiadol<br>• cyfraniadau yn ystod gwasanaethau'r eglwys<br>• mae cyfoeth fel bendith sy'n dod â chyfrifoldeb mawr; Mathew 25:14–30<br>• mae cyfoeth er ei fwyn ei hun yn aml yn anghydnaws â bywyd o ffydd; Mathew 19:24<br>• Mathew 6:24 – ni ellir addoli Duw ac arian<br>• canolbwyntio ar storio "trysorau yn y nefoedd" yn hytrach nag ar y ddaear; Mathew 6:19-21<br>• "gwraidd pob math o ddrwg yw cariad at arian"; 1 Timotheus 6:10<br>• ni ddaw cariad at arian â boddhad gwirioneddol byth; Llyfr y Pregethwr 5:10<br>• mae mynachod a lleianod yn cymryd diofryd tlodi – canolbwyntio'n fwy ar werthoedd ysbrydol<br>• Efengyl Ffyniant. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Safbwyntiau Cristnogol neu safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig**
**b – Safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig**

| **3.1b** **Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: Stiwardiaeth o'r ddaear – safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.1.1b Perthynas y ddynoliaeth â'r byd naturiol – safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig<br>3.1.2b Hawliau anifeiliaid – safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.1.1b Perthynas y ddynoliaeth â'r byd naturiol – safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>credoau, dysgeidiaethau ac arferion Catholig am berthynas dynoliaeth â'r byd naturiol:<br>• yn seiliedig ar y gred bod Duw wedi creu'r byd ex nihilo; Genesis 1:2<br>• cafodd bodau dynol eu creu ar ddelw Duw; Genesis 1:26<br>• dysgeidiaeth y Pab Ffransis yn *'Laudato Si'*<br>• mae bodau dynol wedi cael rheolaeth fel rhan o gynllun Duw – awdurdod; Genesis 1:26-28; Salmau 8:6<br>• mae bodau dynol wedi cael dyletswydd unigryw, a roddwyd gan Dduw i amddiffyn y greadigaeth – stiwardiaeth; Genesis 2:15<br>• mae stiwardiaeth hefyd yn awgrymu defnyddio adnoddau naturiol yn ddoeth ac yn gynaliadwy; Lefiticus 25:8-25.<br><br>Sut mae nodau a gwaith mudiad Laudato Si yn adlewyrchu credoau Catholig am stiwardiaeth. |
| 3.1.2b Hawliau anifeiliaid – safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>credoau, dysgeidiaethau ac arferion Catholig am hawliau anifeiliaid:<br>• cafodd anifeiliaid eu creu gan Dduw yn Genesis 1:31, mae Duw yn datgan bod yr holl greadigaeth, gan gynnwys anifeiliaid, yn "dda iawn”<br>• mae Duw yn rhoi awdurdod i fodau dynol dros anifeiliaid; Genesis 1:26-28<br>• stiwardiaeth – disgwylir i fodau dynol ofalu am fywyd anifeiliaid a'u rheoli'n ddoeth ac yn drugarog, Diarhebion 12:10; Exodus 20:10<br>• addysgodd Sant Ffransis o Assisi am ryng-gysylltrwydd holl fywyd yn rhan o greadigaeth Duw (Cantigl y Creaduriaid). |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | Safbwyntiau Catholig am ddefnyddio anifeiliaid er budd dynol:<br>• mae cyfiawnhad dros ddefnyddio anifeiliaid; Genesis 1:26-28<br>• mae rhai eraill yn ystyried hawliau anifeiliaid yn ffurf o stiwardiaeth, gan gydbwyso rhwng defnyddio anifeiliaid er budd dynoliaeth ac osgoi niwed diangen; Mathew 10:31; Diarhebion 12:10<br>• mae llawer yn derbyn defnyddio anifeiliaid ar gyfer bwyd; Genesis 9:3<br>• mae rhai Catholigion yn dewis llysieuaeth neu feganiaeth yn seiliedig ar ddysgeidiaeth fel Genesis 1:26-28.<br><br>Safbwyntiau Catholig am ddefnyddio anifeiliaid mewn ymchwil gwyddonol a meddygol:<br>• mae llawer yn dadlau ei fod yn hanfodol ar gyfer cynnydd iechyd a llesiant bodau dynol<br>• mae'r rhan fwyaf yn credu y dylid ei wneud yn foesegol, gan wneud ymdrech i leihau dioddefaint i'r eithaf<br>• mae llawer yn cefnogi datblygu dulliau eraill yn lle profi ar anifeiliaid<br>• mae llawer yn galw am reoliadau caeth i sicrhau triniaeth trugarog.<br><br>Sut mae nodau a gwaith Catholic Concern for Animals yn adlewyrchu credoau Catholig am hawliau anifeiliaid. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

<table>
<tr><th colspan="2">3.2b Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: y natur ddynol a'r hawl i fywyd – safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.2.1b Yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol – safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig<br>3.2.3b Moeseg feddygol: erthyliad ac ewthanasia – safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig</td></tr>
<tr><th>Adran</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>3.2.1b Yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol – safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>credoau a dysgeidiaethau Catholig am yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol:<br>• wedi ein creu ar ddelw Duw; Genesis 1:26-27, Deialog Sant Catherine o Siena (o Ddisgresiwn)<br>• yn meddu ar enaid, dimensiwn ysbrydol; Mathew 10:28; Y Pregethwr 12:7<br>• yn meddu ar ymreolaeth – ewyllys rydd, sy'n dod â chyfrifoldeb moesol; Genesis 3; Rhufeiniaid 2:14-15<br>• Y cysyniad o Bechod Gwreiddiol – Awstin Sant (Yr Enchiridion 3:11)<br>• Thomas Aquinas – nid yw'r ddynolryw yn dewis gweithredoedd pechadurus, (Summa Theologica)<br>• maen nhw'n cwympo i bechod, ond mae ganddyn nhw'r cyfle am achubiaeth a chael eu hadfer i berthynas iawn â Duw, trwy gred yn Iesu; Ioan 3:16.</td></tr>
<tr><td>3.2.3b Moeseg feddygol: erthyliad ac ewthanasia – safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>safbwyntiau Catholig o ran pryd mae bywyd yn dechrau:<br><br>• mae Catholigion yn credu bod bywyd dynol yn dechrau ar adeg cenhedlu<br>• mae'r embryo yn cael ei ystyried yn berson dynol ar adeg y cenhedlu<br>• mae urddas a gwerth yn gynhenid i'r embryo; Salmau 139:13-16.<br><br>credoau a dysgeidiaethau Catholig am erthyliad:<br>• bod erthyliad yn ddrygioni moesol difrifol (Y Pab Ioan Pawl II Evangelium Vitae)<br>• egwyddor sancteiddrwydd bywyd – wedi ein creu ar ddelw Duw; Genesis 1:26<br>• mae Catecism yr Eglwys Gatholig yn dysgu bod bywyd yn hawl dynol sylfaenol o'i genhedlu i farwolaeth naturiol<br>• mae pob hawl dynol wedi'i seilio ar yr hawl i fywyd (The Common Good, 1996)<br>• mae erthyliad yn cymryd bywyd diniwed, ac mae wedi'i wahardd yn y Deg Gorchymyn; Exodus 20:13<br>• mae'r Beibl yn dweud bod gan Dduw gynllun ar gyfer pob bywyd dynol ac mae erthyliad yn atal hyn rhag digwydd; Jeremeia 1:5</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | • gall rhai Catholigion dderbyn erthyliad mewn rhai amgylchiadau, fel pan fydd bywyd y fam mewn perygl, mewn achosion o dreisio neu losgach, neu pan fydd abnormaleddau ffetws difrifol yn bresennol, ond nid yw hyn yn ddysgeidiaeth Gatholig swyddogol<br>• mae Catholigion yn eirioli dros ddulliau eraill yn lle erthyliad, fel mabwysiadu<br>• Mae Athrawiaeth yr Effaith Ddwbl yn caniatáu triniaethau a all hefyd arwain at erthyliad, ond dim ond o dan amgylchiadau penodol iawn<br><br>credoau a dysgeidiaethau Catholig am ewthanasia:<br>• mae ewthanasia yn mynd yn gwbl groes i gyfraith Duw – Y Pab Ioan Pawl III (Evangelium Vitae, 1995)<br>• nid yw Catholigion yn derbyn dadleuon 'hawl i farw' gan mai dim ond Duw sydd â rheolaeth dros fywyd a marwolaeth<br>• egwyddor sancteiddrwydd bywyd – wedi ein creu gan Dduw ar ei ddelw ef; Genesis 1:26<br>• gwrthwynebu ewthanasia gweithredol yn gryf gan ystyried bod hynny'n dod â bywyd sydd wedi'i roi gan Dduw i ben; Exodus 20:13<br>• y gred nad yw dioddefaint a phoen yn gwneud bywyd yn llai gwerthfawr na sanctaidd<br>• pwysigrwydd 'marw'n dda' a dangos tosturi dros y rhai sy'n dioddef; Galatiaid 6:2<br>• cefnogaeth gryf dros ofal lliniarol ac hosbisau<br>• pryderon am ddadl 'y llethr llithrig'<br>• Mae Athrawiaeth yr Effaith Ddwbl yn caniatáu rhoi triniaeth a all achosi marwolaeth, ond ddim ond mewn sefyllfaoedd penodol iawn. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **3.3b** | **Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: rhyddid mynegiant crefyddol a'r defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig** |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.3.1b Rhyddid mynegiant crefyddol – safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig<br>3.3.2b Y defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.3.1b Rhyddid mynegiant crefyddol – safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>credoau a dysgeidiaethau Catholig am ryddid mynegiant crefyddol:<br>• y Comisiwn Mawr (Mathew 28:19-20) Cyfarwyddyd Iesu i rannu'r ffydd ag eraill<br>• mae hyn yn rhan o'r ewyllys rydd a roddwyd gan Dduw i ddynoliaeth<br>• mae Catholigion yn cael eu cyfarwyddo i efengylu – Y Pab Ffransis (Evangelii Gaudium 15. 48-49, 197-198, 264-265)<br>• pwysigrwydd bod gan bobl o grefyddau eraill yr un hawl i fynegiant crefyddol; Mathew 7:12<br>• rôl yr Eglwys Gatholig mewn deialog rhyng-ffydd; mae'n ddyletswydd i siarad am eu ffydd, hyd yn oed yn wyneb gwrthwynebiad; Actau 4:19-20<br>• Mae llawer o Gatholigion yn sensitif i'r hawl i fynegiant crefyddol yn seiliedig ar eu hanes eu hunain o erledigaeth<br>• dylid caniatáu mynegiant crefyddol mewn mannau cyhoeddus, gan gynnwys y rhyddid i weddïo, gwisgo symbolau crefyddol, a chymryd rhan mewn gweithgareddau crefyddol; Mathew 5:14-16. |
| 3.3.2b Y defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Cristnogaeth Gatholig | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>credoau a dysgeidiaethau Catholig am y defnydd o gyfoeth personol<br>• mae hyn yn gysylltiedig â stiwardiaeth a dylai adlewyrchu pwrpasau a gwerthoedd Duw<br>• yn yr Offeren, mae Catholigion yn cael eu galw i gyfrannu at y casgliad, os gallant ei fforddio<br>• yn aml mae cyfoeth yn cael ei ystyried fel bendith sy'n dod â chyfrifoldeb mawr; Mathew 25:14-30<br>• rhybuddion am beryglon trachwant a chariad at arian; 1 Timotheus 6:10<br>• yn aml mae cyfoeth er ei fwyn ei hun yn cael ei ystyried yn anghydnaws â bywyd o ffydd; Mathew 19:24<br>• ni all Cristnogion wasanaethu Duw ac arian; Mathew 6:24<br>• Dywedodd y Pab Ffransis "Rhaid i arian wasanaethu, nid llywodraethu" (2024)<br>• atgoffir i ganolbwyntio ar storio "trysorau yn y nefoedd" yn hytrach nag ar y ddaear; Mathew 6:19-21<br>• ni ddaw cariad at arian â boddhad gwirioneddol byth; Llyfr y Pregethwr 5:10<br>• Mae mynachod a lleianod Catholig, fel y Ffransisgiaid, yn eirioli bywyd sy'n canolbwyntio llai ar arian a mwy ar werthoedd ysbrydol<br>• mae rhai mynachod a lleianod Catholig yn addo diofryd tlodi. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Safbwyntiau crefyddau'r byd**
**a – Safbwyntiau Bwdhaidd**

| **3.4a** | **Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: Stiwardiaeth o'r ddaear – safbwyntiau Bwdhaidd** |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.4.1a Perthynas y ddynoliaeth â'r byd naturiol – safbwyntiau Bwdhaidd<br>3.4.2a Hawliau anifeiliaid – safbwyntiau Bwdhaidd | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.4.1a Perthynas y ddynoliaeth â'r byd naturiol – safbwyntiau Bwdhaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau, dysgeidiaeth ac agweddau Bwdhaidd am berthynas dynoliaeth â'r byd naturiol:<br>• Dechreuad Dibynnol (Pratityasamutpada) – rhyngddibyniaeth<br>• dylid parchu popeth byw<br>• mae dynoliaeth yn effeithio ar yr amgylchedd ac mae'r amgylchedd yn effeithio ar ddynoliaeth<br>• mae'r cysyniad o karma yn dysgu bod gan bob gweithred ganlyniadau cadarnhaol neu negyddol<br>• mae'r cysyniad o Weithredu Cywir yn dysgu Bwdhyddion i osgoi niweidio'r amgylchedd<br>• mae'r ail o'r Pum Argymhelliad yn rhybuddio rhag cymryd yr hyn nad yw'n cael ei roi'n rhydd, gan gynnwys o'r amgylchedd.<br><br>Sut mae nodau a gwaith rhwydwaith Eco Dharma yn adlewyrchu credoau Bwdhaidd am ofalu am y byd naturiol. |
| 3.4.2a Hawliau anifeiliaid – safbwyntiau Bwdhaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau, dysgeidiaethau ac arferion Bwdhaidd am hawliau anifeiliaid:<br>• Nid yw statws bodau dynol yn uwch na statws bodau byw eraill<br>• rhaid ymestyn tosturi, doethineb a charedigrwydd cariadus dynol at bopeth byw (Dhammapada 129)<br>• mae'r Argymhelliad Cyntaf yn dysgu'r cysyniad o ahimsa<br>• egwyddor Gweithredu Cywir – byddai niweidio anifeiliaid yn crynhoi karma negyddol<br>• mae anifeiliaid hefyd yn rhan o gylch samsara.<br>• mae ailenedigaeth fel anifail yn ganlyniad i karma drwg ym mywydau'r gorffennol ac yn cael ei ystyried yn rhwystr ysbrydol difrifol<br>• ni all anifeiliaid wella eu statws karmig. Rhaid parhau i gael ailenedigaeth fel anifail nes bod y karma drwg wedi cael ei ddefnyddio.<br><br>Safbwyntiau Bwdhaidd am ddefnyddio anifeiliaid er budd dynol:<br>• doedd y Buddha (Siddhartha Gautama) ddim yn llysieuwr ac ni ddysgodd i'w ddilynwyr fod yn llysieuol |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | • mae rhai'n dweud bod yr Argymhelliad Cyntaf yn cyfeirio'n fwy at ladd yn uniongyrchol na lladd anifeiliaid yn anuniongyrchol ar gyfer bwyd<br>• mae bwyta cig yn enghraifft arall o realiti Dukkha<br>• mae llysieuaeth yn osgoi rhag achosi dioddefaint (ahimsa)<br>• mae llysieuaeth yn osgoi ffermio diwydiannol a all arwain at newid hinsawdd/amgylcheddol<br>• mae'r cysyniad o 'Fywoliaeth Gywir' yn dysgu y dylai Bwdhyddion osgoi gwaith sy'n cynnwys lladd neu niweidio anifeiliaid.<br><br>Safbwyntiau Bwdhaidd amddefnyddio anifeiliaid mewn ymchwil gwyddonol a meddygol:<br>• mae llawer o Fwdhyddion yn cytuno â Deddf Ymdeimladoldeb Lles Anifeiliaid y DU 2022<br>• mae arbrofi ar anifeiliaid yn foesol anghywir pe gallai'r anifail dan sylw wynebu unrhyw niwed<br>• mae llawer yn cydnabod y gwerth y gallai arbrofi ar anifeiliaid ei gael ar gyfer iechyd pobl<br>• byddai rhai'n awgrymu bod y cyffuriau a brofwyd ar anifeiliaid yn niweidio iechyd dynol<br>• mae'n rhaid i'r arbrofwr dderbyn y karma negyddol o gynnal yr arbrawf<br>• arbrofi ar gyfer pwrpas moesol da yn unig<br>• arbrofi ar anifeiliaid yn unig lle nad oes dewis arall<br>• cynllunio'r arbrawf i wneud cyn lleied o niwed â phosibl<br>• osgoi lladd yr anifail oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol<br>• trin yr anifeiliaid yn garedig ac yn barchus.<br><br>Sut mae nodau a gwaith Dharma Voices for Animals yn adlewyrchu credoau Bwdhaidd am hawliau anifeiliaid. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **3.5a** | **Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: y natur ddynol a'r hawl i fywyd – safbwyntiau Bwdhaidd** |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.5.1a Beth sy'n ein gwneud ni'n ddynol – safbwyntiau Bwdhaidd<br>3.5.2a Moeseg feddygol: erthyliad ac ewthanasia – safbwyntiau Bwdhaidd | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.5.1a Beth sy'n ein gwneud ni'n ddynol – safbwyntiau Bwdhaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>agweddau, credoau a dysgeidiaethau Bwdhaidd am yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol:<br><br>• natur Bwdha: bod gan bawb y potensial i gyflawni Nirvana (goleuedigaeth)<br>• Mahayana – y cysyniad o Fwdhaeth<br>• Theravada – y cysyniad Arhathood<br>• cydnabod ac osgoi'r Tri Gwenwyn<br>• cydnabod Tri Nod Bodolaeth<br>• ceisio Nirvana trwy Buddha, Dharma a Sangha. |
| 3.5.2a Moeseg feddygol: erthyliad ac ewthanasia – safbwyntiau Bwdhaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Bwdhaidd am erthyliad:<br>• mae cylch samsara yn golygu nad oes pwynt lle nad yw ffoetws neu embryo yn fyw<br>• mae bywyd dynol yn werthfawr oherwydd dim ond bodau dynol sy'n gallu datgelu'r natur Bwdha neu gyrraedd yr arhadaeth<br>• mae'r cyntaf o'r Pum Argymhelliad yn cynghori yn erbyn cymryd bywyd<br>• egwyddor Ahimsa yn arwain yn erbyn achosi niwed i fodau byw<br>• canllawiau yn unig yw'r Argymhellion a'r egwyddorion, nid rheolau na chyfreithiau moesol<br>• mae erthyliad fel arfer yn fater cymhleth a rhaid ystyried cymhlethdod pob sefyllfa<br>• mae'r cysyniad o weithred medrus yn golygu y gellir ystyried erthyliad yn weithred negyddol neu'n 'ddrygioni angenrheidiol'.<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Bwdhaidd am ewthanasia<br>• marwolaeth yw'r pwynt trawsnewidiad rhwng yr ailenedigaeth hon a'r ailenedigaeth nesaf<br>• gan fod bywyd dynol yn werthfawr, dylai barhau am gyhyd ag y bo modd<br>• gall cyflwr meddwl person (cyflwr karmig) ar adeg ei farwolaeth benderfynu ar y math o ailenedigaeth a ddaw<br>• Mae'r Argymhelliad Cyntaf yn arwain yn erbyn lladd bod byw, felly mae ewthanasia yn cael ei ystyried yn anfedrus<br>• mae egwyddorion ahimsa a metta yn annog peidio â niweidio a dangos caredigrwydd cariadus<br>• hyd yn oed os yw'r bwriad yn drugarog, mae'r weithred o ladd yn dal yn anghywir; Vinaya III. 86 |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | • mae egwyddorion karuna a Bwriad Cywir, ac amgylchiadau unigol, yn golygu bod ewthanasia yn dderbyniol, cyn belled â bod y bwriad i ladd yn cael ei osgoi. |

**3.6a Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: rhyddid mynegiant crefyddol a'r defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Bwdhaidd**

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:
3.6.1a Rhyddid mynegiant crefyddol – safbwyntiau Bwdhaidd
3.6.2a Y defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Bwdhaidd

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 3.6.1a Rhyddid mynegiant crefyddol – safbwyntiau Bwdhaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br>Credoau a dysgeidiaethau Bwdhaidd am ryddid mynegiant crefyddol:<br>• Yn aml mae Bwdhaeth yn cael ei hystyried yn grefydd oddefgar ac nid efengylu yw un o'i phrif amcanion<br>• mae egwyddorion Siarad Cywir a Gweithredu Cywir yn gwarchod rhag defnyddio rhyddid mynegiant yn anfedrus a thramgwyddo<br>• mae egwyddorion Karuna a Metta hefyd yn gwarchod rhag defnyddio rhyddid mynegiant yn anfedrus<br>• mae karma cadarnhaol yn cael ei ennill trwy fyw yn ôl yr egwyddorion hyn a sicrhau bod rhyddid mynegiant yn cael ei ddefnyddio'n sensitif, heb achosi dim niwed. |
| 3.6.2a Y defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Bwdhaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br>Credoau a dysgeidiaethau Bwdhaidd am y defnydd o gyfoeth personol:<br>• enghraifft y Bwdha (Siddhartha Gautama) a gefnodd ar gyfoeth eithafol i ddarganfod goleuedigaeth<br>• mae straeon am fywydau blaenorol y Bwdha yn dangos ei weithredoedd hael<br>• mae'r Pedwar Gwirionedd Nobl yn dysgu bod tanha (trachwant) yn arwain at dukkha<br>• dysgodd y Bwdha Y Ffordd Ganol rhwng cyfoeth a thlodi<br>• mae egwyddor Bywoliaeth Gywir yn arwain yn erbyn gwneud arian drwy ddulliau anfedrus neu ddefnyddio arian mewn ffordd sy'n niweidio eich hun neu eraill<br>• mae egwyddor Gweithredu Cywir yn arwain yn erbyn cymryd arian (neu adnoddau) nad ydynt yn cael eu rhoi yn rhydd<br>• mae egwyddor dana (rhoi yn hael) yn bwysig ac yn arwain at karma cadarnhaol<br>• mae egwyddor karuna yn annog defnyddio arian i helpu eraill, er enghraifft, gwaith Ymddiriedolaeth Karuna<br>• Nid oes gan fynachod Bwdhaidd unrhyw eiddo eu hunain; maen nhw'n dibynnu ar dana<br>• nid yw cyfoeth ynddo'i hun yn anfedrus, ond rhaid ei ddefnyddio at y pwrpasau cywir; Anguttara Nikaya 1.80. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Safbwyntiau crefyddau'r byd**
**b – Safbwyntiau Hindŵaidd**

| **3.4b** | **Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: Stiwardiaeth o'r ddaear – safbwyntiau Hindŵaidd** |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.4.1b Perthynas y ddynoliaeth â'r byd naturiol – safbwyntiau Hindŵaidd<br>3.4.2b Hawliau anifeiliaid – safbwyntiau Hindŵaidd | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.4.1b Perthynas y ddynoliaeth â'r byd naturiol – safbwyntiau Hindŵaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>credoau a dysgeidiaethau Hindŵaidd am berthynas dynoliaeth â'r byd naturiol:<br>• y realiti eithaf yw Brahman<br>• mae pob atman yn rhan o'r hanfod dwyfol hwn ac yn amlygiadau o Brahman ac yn rhyng-gysylltiedig; Bhagavad Gita – 11:7; Chandogya Upanishad 4.10.4-5<br>• gall gweithredoedd niweidiol tuag at natur arwain at karma negyddol<br>• mae byw mewn cytgord â natur yn hanfodol i gyflawni dharma rhywun<br>• mae'r egwyddor ahimsa (di-drais) yn ymestyn i bopeth byw. Mae sawl agwedd ar natur yn aml yn cael eu hanrhydeddu fel duwiau neu dduwiesau; mae'r parch hwn yn arwain at arferion sy'n diogelu ac yn cadw adnoddau naturiol<br>• mae arferion Hindŵaidd yoga a myfyrdod yn aml yn pwysleisio cysylltiad â natur, fel Surya Namaskar (Cyfarchiad yr Haul).<br><br>Sut mae nodau a gwaith Hindu Climate Action yn adlewyrchu credoau Hindŵaidd am ofalu am y byd naturiol. |
| 3.4.2b Hawliau anifeiliaid – safbwyntiau Hindŵaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>credoau a dysgeidiaethau Hindŵaidd am hawliau anifeiliaid:<br>• mae pob bod byw yn meddu ar atman ac yn rhan o Brahman; Isha Upanishad v6, a chylch samsara; Yajurveda 12.32<br>• mae rhai anifeiliaid yn cael eu hystyried yn sanctaidd, ac mae eu llesiant yn bwysig ar gyfer cynnal cydbwysedd natur; Baghavata Purana 7:14.9<br>• mae ahimsa yn addysgu y dylid osgoi achosi niwed i bethau byw mae gofalu am anifeiliaid yn rhan o dharma unigolyn.<br>• gall niweidio anifeiliaid arwain at ganlyniadau karmig negyddol yn y bywyd hwn neu fywydau yn y dyfodol<br>• gallai niweidio anifail fod yn niweidio bod a oedd efallai'n fod dynol mewn bywyd blaenorol<br>• yn dibynnu ar karma, gall eu hatman eu hunain ddychwelyd ar ffurf anifail yn eu bywyd nesaf |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | • mae gwahanol anifeiliaid yn gysylltiedig â duwiau ac maent yn cael eu hystyried yn sanctaidd fel mwncïod (Hanuman), eliffantod (Ganesh)<br>• mae'r fuwch yn cael ei mawrygu a'i hamdiffyn yn arbennig (Gau Mata).<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Hindŵaidd am ddefnyddio anifeiliaid er budd dynol:<br>• mae llawer yn ymarfer llysieuaeth, fel ISKCON, ac felly'n glynu wrth ahimsa, ac er mwyn dangos parch at fywyd anifeiliaid; Manu Smriti 5:48<br>• mae'r Mahabharata yn adlewyrchu'r farn Hindŵaidd y dylid amddiffyn ac anrhydeddu'r fuwch, mae'r arfer o ffermio ffatri yn gwrth-ddweud egwyddor ahimsa yn uniongyrchol<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Hindŵaidd am ddefnyddio anifeiliaid mewn ymchwil wyddonol a meddygol:<br>• mae safbwyntiau amrywiol yn bodoli o fewn Hindŵaeth<br>• efallai y bydd rhai Hindŵiaid yn derbyn defnyddio anifeiliaid mewn ymchwil os yw er lles pawb ac yn cael ei gynnal heb fawr o niwed<br>• efallai y bydd eraill yn ei wrthwynebu'n llwyr ar sail ahimsa ac effaith karma negyddol<br>• mae llawer yn eirioli dros ddulliau eraill yn lle profi ar anifeiliaid sy'n cyfateb i ahimsa.<br><br>Sut mae nodau a gwaith Jivdaya Charitable Trust yn adlewyrchu credoau Hindŵaidd am hawliau anifeiliaid. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 3.5b Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: y natur ddynol a'r hawl i fywyd –safbwyntiau Hindŵaidd

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:
3.5.1b Beth sy'n ein gwneud ni'n ddynol – safbwyntiau Hindŵaidd
3.5.2b Moeseg feddygol: erthyliad ac ewthanasia – safbwyntiau Hindŵaidd

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 3.5.1b Beth sy'n ein gwneud ni'n ddynol – safbwyntiau Hindŵaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaeth Hindŵaidd am yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol:<br>• oherwydd cylch samsara, nid oes pwynt lle nad yw ffoetws neu embryo yn fyw<br>• craidd hunaniaeth ddynol yw'r atman, yr enaid neu'r hunan, sy'n rhan o Brahman<br>• nod eithaf yr atman yw undod gyda Brahman (moksha) a dod â chylch samsara i ben<br>• mae bodau dynol yn meddu ar ewyllys rydd ac yn gallu creu karma da neu ddrwg sy'n effeithio ar samsara<br>• mae gan prakriti (natur) popeth 3 rhinwedd (y Tri Guna)<br>• dim ond bodau dynol sy'n gallu newid cydbwysedd y gunas<br>• rhaid rheoli'r synhwyrau, sy'n achosi ansefydlogrwydd ac awydd; Bhagavad Gita 5:20-21. |
| 3.5.2b Moeseg feddygol: erthyliad ac ewthanasia – safbwyntiau Hindŵaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Hindŵaidd am foeseg feddygol – erthyliad:<br>• mae Hindŵiaid yn arddel gwahanol gredoau<br>• yn gyffredinol, mae Hindŵiaid yn credu bod gan bob creadur byw atman a'u bod yn rhan o Brahman<br>• mae dharma yn pwysleisio amddiffyn bywyd; Manu Smriti<br>• mae dharma hefyd yn ddibynnol ar y cyd-destun – felly efallai y bydd erthyliad yn cael ei ganiatáu mewn rhai sefyllfaoedd<br>• mae egwyddor ahimsa a'r gred bod yr atman yn bodoli o'r eiliad ar feichiogi wedi'i nodi mewn ysgrythur Hindŵaidd; y Garbhopanishad<br>• gellir ystyried bod erthyliad yn cynhyrchu karma negyddol i'r sawl sy'n gysylltiedig.<br><br>credoau a dysgeidiaeth Hindŵaidd am foeseg feddygol – ewthanasia:<br>• mae Hindŵiaid yn arddel gwahanol gredoau<br>• mae Hindŵiaid yn credu bod gan bob creadur byw atman a'u bod yn rhan o Brahman<br>• dharma – mae gwrthdaro rhwng y ddyletswydd i warchod bywyd a'r ddyletswydd i leddfu dioddefaint<br>• mae rhai Hindŵiaid yn dadlau mai dharma person yw dioddef dioddefaint gyda dewrder ac urddas, gan y gallai arwain at ddatblygiad ysbrydol |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | • gellid ystyried dod â bywyd i ben yn gynamserol fel amharu ar gylch samsara; Manu Smriti<br>• ahimsa – mae dod â bywyd i ben yn gallu cael ei ystyried fel gweithred o drais<br>• mae Hindŵaeth hefyd yn rhoi gwerth ar karuna (tosturi), felly gall ewthanasia goddefol fod yn dderbyniol mewn rhai sefyllfaoedd. |

**3.6b Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: rhyddid mynegiant crefyddol a'r defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Hindŵaidd**

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:
3.6.1b Rhyddid mynegiant crefyddol – safbwyntiau Hindŵaidd
3.6.2b Y defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Hindŵaidd

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 3.6.1b Rhyddid mynegiant crefyddol – safbwyntiau Hindŵaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Hindŵaidd am ryddid mynegiant crefyddol:<br>• y safbwynt Hindŵaidd yw bod llawer o lwybrau i'r un gwirionedd; Sarva Dharma a Sama Bhava<br>• mae traddodiad Hindŵaidd yn annog deialog a dadl – mae sawl ysgol o feddwl, fel Advaita (anneuoliaeth), Dvaita (deuoliaeth)<br>• mae ahimsa yn eirioli dros gydfodoli heddychlon, niwed a allai gael ei achosi gan orfodaeth neu anoddefgarwch crefyddol<br>• mae gwahanol fudiadau diwygio o fewn Hindŵaeth yn pwysleisio'r rhyddid i fynd ar drywydd gwirioneddau ysbrydol. |
| 3.6.2b Y defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Hindŵaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Hindŵaidd am y defnydd o gyfoeth personol:<br>• un o bedwar prif nod bywyd dynol yw artha – mae'r Bhagavad Gita yn addysgu pwysigrwydd vairagya (datgysylltiad) oddi wrth feddiannau materol a chyfoeth.<br>• gwir nod bywyd yw cynnydd ysbrydol – dylid defnyddio cyfoeth i gefnogi'r daith hon yn unig, nid i'w rhwystro<br>• ni ddylid cael cyfoeth drwy arferion anfoesegol<br>• mae dana yn rhinwedd werthfawr iawn sy'n ennill karma cadarnhaol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Safbwyntiau crefyddau'r byd**
**c – safbwyntiau Islamiadd**

| **3.4c** | **Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: Stiwardiaeth o'r ddaear – Islam** |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.4.1c Perthynas y ddynoliaeth â'r byd naturiol – safbwyntiau Islamaidd<br>3.4.2c Hawliau anifeiliaid – safbwyntiau Islamaidd | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.4.1c Perthynas y ddynoliaeth â'r byd naturiol – safbwyntiau Islamaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Islamaidd am berthynas y ddynoliaeth â'r byd naturiol:<br>• cafodd y byd ei greu gan Dduw ac mae'n perthyn iddo; Qur'an 7:54<br>• mae bodau dynol yn cael eu hystyried yn khalifahs (stiwardiaid); Qur'an 35:39 o'r ddaear (fil ardh); Qur'an 6:165<br>• mae stiwardiaeth yn adlewyrchu rhyng-gysylltrwydd dwfn â gweddill y greadigaeth<br>• mae bodau dynol yn gyfrifol am gynnal cydbwysedd (mizan) yn y byd; Qur'an 55. 7-9<br>• tawhid, yn ymestyn i undod y greadigaeth<br>• fitrah, yn arwain pobl i geisio Duw ac i fyw mewn cytgord â'r amgylchedd<br>• ar Ddydd y Farn (Akhirah), bydd bodau dynol yn atebol am eu gweithredoedd tuag at y byd naturiol.<br><br>Sut mae nodau a gwaith y Sefydliad Islamaidd ar gyfer Ecoleg a Gwyddorau Amgylcheddol (IFEES) yn adlewyrchu credoau Islamaidd. |
| 3.4.2c Hawliau anifeiliaid – safbwyntiau Islamaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Islamaidd am hawliau anifeiliaid:<br>• roedd y Proffwyd Muhammad yn dangos caredigrwydd i anifeiliaid<br>• roedd Muhammed yn addysgu gan ddweud bod y rhai hynny sy'n garedig i anifeiliaid yn cael eu gwobrwyo gan Allah; Bukhari<br>• ar Ddydd y Farn (Akhirah), bydd bodau dynol yn atebol am eu gweithredoedd tuag at anifeiliaid.<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Islamaidd am ddefnyddio anifeiliaid er budd dynol:<br>• darparodd Duw dda byw i fodau dynol eu defnyddio, gan gynnwys ar gyfer bwyd; Qur'an 40:79-80<br>• mae rhai Mwslimiaid yn osgoi ffermio gorddwys a lladd anifeiliaid am hwyl<br>• mae Mwslimiaid yn cael eu hannog i beidio â gor-weithio anifeiliaid<br>• mae arferion lladd anifeiliaid halal yn cynnwys diolch i Allah am fywyd yr anifail. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | Credoau a dysgeidiaethau Islamaidd am ddefnyddio anifeiliaid mewn ymchwil gwyddonol a meddygol:<br>• mae rhai Mwslimiaid yn credu bod arbrofi ar anifeiliaid yn cael ei ganiatáu pan fydd yn fuddiol i fywyd ac iechyd dynol<br>• rhaid iddo gael ei gynnal gyda'r bwriad o wneud mwy o ddaioni<br>• rhaid iddo achosi cyn lleied o niwed â phosibl<br>• os oes dulliau eraill ar gael, dylid eu defnyddio.<br><br>Sut mae nodau a gwaith Salam for Animals yn adlewyrchu credoau Islamaidd am hawliau anifeiliaid. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **3.5c** | **Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: y natur ddynol a'r hawl i fywyd – safbwyntiau Islamaidd** |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.5.1c Yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol – safbwyntiau Islamaidd<br>3.5.2c Moeseg feddygol: erthyliad ac ewthanasia – safbwyntiau Islamaidd | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.5.1c Yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol – safbwyntiau Islamaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Islamaidd am yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol:<br>• cafodd bodau dynol eu creu yn unigryw gan Allah gyda'r galluoedd corfforol, deallusol ac ysbrydol gorau; Qur'an 95:4<br>• mae'r enaid (ruh) yn cael ei ystyried yn hanfod bodolaeth ddynol, sydd wedi'i roi gan Allah; Qur'an 17:85<br>• mae gan fodau dynol ymreolaeth – ewyllys rydd<br>• mae gan fodau dynol gyfrifoldeb moesol; Qur'an 76:3<br>• mae bodau dynol wedi'u geni â thuedd naturiol tuag at ddaioni<br>• gall bodau dynol gydnabod bodolaeth Allah, sy'n rhan o'r fitrah; Qur'an 30:30<br>• mae gan fodau dynol allu deallusol (aql) ac maent yn gallu cydnabod Allah yn y greadigaeth. |
| 3.5.2c Moeseg feddygol: erthyliad ac ewthanasia – safbwyntiau Islamaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>safbwyntiau Islamaidd o ran pryd mae bywyd yn dechrau:<br>• mae rhai yn credu bod bywyd yn dechrau adeg eneidio<br>• mae rhai yn credu pan fydd y ffoetws wedi'i ffurfio'n gorfforol, yna mae'n dod yn berson<br>• mae rhai yn credu ei fod yn berson o adeg y cenhedlu.<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Islamaidd am foeseg feddygol:<br>• mae Mwslimiaid yn arddel safbwyntiau gwahanol, yn dibynnu ar eu dehongliad o'r Qur'an a Hadith.<br>• maent yn pwysleisio sancteiddrwydd bywyd ac yn ystyried bod lladd rhywun mewn ffordd anghyfiawn yn bechod difrifol; Qur'an 5:32<br>• mae'r bwriad (niyyah) y tu ôl i weithredoedd yn hanfodol mewn moeseg Islamaidd<br>• mae egwyddor darar (lleihau niwed) yn bwysig<br>• byddai llawer o Fwslimiaid yn dadlau bod rhesymau dilys dros erthyliad.<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Sikhaidd am foeseg feddygol – ewthanasia:<br><br>• maent yn pwysleisio sancteiddrwydd bywyd ac yn ystyried bod lladd rhywun mewn ffordd anghyfiawn yn bechod difrifol; Qur'an 5:32<br>• mae'r rhan fwyaf o Fwslimiaid yn cytuno nad yw ewthanasia, boed yn wirfoddol neu'n anwirfoddol, wedi'i ganiatáu mewn Islam |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | • mae'r bwriad (niyyah) y tu ôl i weithredoedd yn hanfodol mewn moeseg Islamaidd<br>• mae ewthanasia yn anghywir gan ei fod yn golygu dod â bywyd i ben yn fwriadol a chynamserol; Qur'an 16:61<br>• mae dioddefaint yn aml yn cael ei ystyried yn brawf gan Allah, ac mae Mwslimiaid yn cael eu hannog i ddioddef yn amyneddgar (sabr) ac ymddiried yn noethineb Allah; Qur'an 67.2, Surah Al Baqarah 2.155<br>• gall gofal lliniarol leddfu dioddefaint heb gyflymu marwolaeth<br>• mae rhai Mwslimiaid yn dadlau y gallai atal triniaeth feddygol fod yn dderbyniol os yw'r driniaeth yn ymestyn dioddefaint heb obaith rhesymol o oroesi. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| 3.6c Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: rhyddid mynegiant crefyddol a'r defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Islamaidd | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.6.1c Rhyddid mynegiant crefyddol – safbwyntiau Islamaidd<br>3.6.2c Y defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Islamaidd | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.6.1c Rhyddid mynegiant crefyddol – safbwyntiau Islamaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Islamaidd am ryddid mynegiant crefyddol:<br>• mae Islam yn addysgu na ddylid gorfodi cred grefyddol; Qur'an 2:256<br>• mae'r Qur'an yn cydnabod dilynwyr Iddewiaeth a Christnogaeth fel "Pobl y Llyfr"<br>• mae Mwslimiaid dan gyfarwyddyd i barchu Iddewon a Christnogion a'u hysgrythurau; Qur'an 29:46<br>• mae shar'ia yn rhoi canllawiau ar sut i drin pobl sydd ddim yn Fwslimiaid mewn gwladwriaeth Islamaidd, gan bwysleisio cyfiawnder ac amddiffyniad<br>• mae graddau'r rhyddid crefyddol mewn gwledydd lle mae'r mwyafrif yn Fwslimiaid yn amrywio'n fawr:<br>    • mae rhai wedi cynnwys rhyddid crefyddol yn eu cyfansoddiadau a'u systemau cyfreithiol<br>    • mae eraill yn gosod cyfyngiadau llym ar fynegiant crefyddol, yn enwedig pan fydd yn gwrthdaro â chyfraith Islamaidd<br>• mae adrodd y Shahadah yn gyhoeddus yn arfer pwysig i ddangos ymrwymiad i Islam. |
| 3.6.2c Y defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Islamaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Islamaidd am y defnydd o gyfoeth personol:<br>• mae cyfoeth yn cael ei ystyried yn rhywbeth y mae Duw wedi ymddiried mewn bodau dynol i'w ddefnyddio'n ddoeth (amanah)<br>• mae disgwyl i Fwslimiaid ei ddefnyddio mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu ewyllys Duw<br>• rhaid i Fwslimiaid osgoi israf – gormodedd a gwastraff<br>• zakah – gweithred orfodol o elusen i'r rhai sy'n gallu fforddio ei rhoi; Qur'an 73:20<br>• sadaqah – gall fod ar sawl ffurf, gan gynnwys arian, bwyd, neu amser; Qur'an 3:92<br>• khums – un o'r Deg Gweithred Orfodol o Shi'a Islam; Qur'an 8:41<br>• mae Mwslimiaid yn cael eu hannog i fuddsoddi eu cyfoeth mewn mentrau halal<br>• mae Islam yn gwahardd yr arfer o godi llog ar fenthyciadau (riba) ar unrhyw gyfrif. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Safbwyntiau crefyddau'r byd**
**ch – safbwyntiau Iddewig**

| **3.4ch Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: Stiwardiaeth o'r Ddaear – safbwyntiau Iddewig** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.4.1ch Perthynas y ddynoliaeth â'r byd naturiol – safbwyntiau Iddewig<br>3.4.2ch Hawliau anifeiliaid – safbwyntiau Iddewig | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.4.1ch Perthynas y ddynoliaeth â'r byd naturiol – safbwyntiau Iddewig | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau, dysgeidiaethau ac arferion Iddewig am berthynas dynoliaeth â'r byd naturiol:<br>• rhoddwyd awdurdod i ddynoliaeth dros y ddaear; Genesis 1:28<br>• mae bodau dynol yn Shomrei Adamah (gwarcheidwaid/stiwardiaid y ddaear); Genesis 2:15<br>• mae'r cysyniad o Tikkun Olam yn cynnwys y syniad o weithredu cymdeithasol gan gynnwys cyfrifoldeb amgylcheddol<br>• mae bal tashchit (peidiwch â dinistrio na gwastraffu) yn hybu cynaliadwyedd a pharch at y byd naturiol Deuteronomium 20:19-20<br>• mae Tu B'Shevat (Blwyddyn Newydd y Coed) yn ŵyl Iddewig sy'n dathlu adnewyddu natur<br>• mae rhai dehongliadau modern o kashrut yn cynnwys eco-kashrut – pryderon amgylcheddol a moesegol am arferion deietegol.<br><br>Sut mae nodau a gwaith EcoJudaism yn adlewyrchu credoau Iddewig am stiwardiaeth. |
| 3.4.2ch Hawliau anifeiliaid – safbwyntiau Iddewig | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau, dysgeidiaethau ac arferion Iddewig am hawliau anifeiliaid:<br>• egwyddor Tza'ar Ba'alei Chayim (atal unrhyw boen neu dioddefaint anifeiliaid) Exodus 23:12; Deuteronomium 25:4<br><br>Credoau, dysgeidiaethau ac arferion Iddewig am ddefnyddio anifeiliaid er budd dynol:<br>• mae defnyddio rhai anifeiliaid mewn ffordd ddigreulon ar gyfer bwyd a gwaith wedi'i ganiatáu; Lefiticus 12; Deuteronomium 14<br>• rhaid lladd anifeiliaid sy'n cael eu defnyddio ar gyfer bwyd kosher gan ddefnyddio'r dull shechita i leihau dioddefaint<br>mae'r Torah yn gwahardd rhai arferion; Exodus 23:19, Deuteronomium 22:6-7 mae rhai Iddewon (Rabbi Moshe Feinstein) yn gwrthwynebu arferion fel gorfwydo anifeiliaid i gynhyrchu danteithion |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | • dim ond anifeiliaid fel ych neu asyn sy'n cael eu defnyddio ar gyfer aredig neu gario llwythi trwm<br>• ni ellir curo na gorfodi anifeiliaid i weithio'n ormodol nac yn annaturiol; Diarhebion 12:10<br>• mae deddfau Shabbat hefyd yn rhoi diwrnod o orffwys i anifeiliaid sy'n gweithio; Exodus. 20:10.<br><br>Credoau, dysgeidiaethau ac arferion Iddewig am ddefnyddio anifeiliaid mewn ymchwil gwyddonol a meddygol:<br>• mae dysgeidiaeth Iddewig yn caniatáu arbrofi ar anifeiliaid pan fydd mantais amlwg i fywyd ac iechyd dynol<br>• rhaid ystyried cysyniad Tza'ar Ba'alei Chayim<br>• rhaid ystyried y cysyniad o Bal Tashchit (peidiwch â dinistrio na gwastraffu eitemau)<br>• gall pob achos fod yn ddibynnol ar ddehongliad unigol o gyfraith grefyddol Iddewig<br>• mae rhai Iddewon yn annog dulliau ymchwil eraill nad ydynt yn cynnwys anifeiliaid.<br><br>Sut mae nodau a gwaith Jewish Initiative for Animals yn adlewyrchu credoau Iddewig am hawliau anifeiliaid. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **3.5ch Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: y natur ddynol a'r hawl i fywyd – safbwyntiau Iddewig** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.5.1ch Yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol – safbwyntiau Iddewig<br>3.5.2ch Moeseg feddygol: erthyliad ac ewthanasia – safbwyntiau Iddewig | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.5.1ch Yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol – safbwyntiau Iddewig | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Iddewig am yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol:<br>• wedi ein creu ar ddelw Duw; Genesis 1:26-27<br>• meddu ar enaid neu wreichionen ddwyfol, dimensiwn ysbrydol; Llyfr y Pregethwr 12:7<br>• wedi'i eni â chymhelliad da ac allgarol (yetzer ha tov) a chymhelliad drwg neu hunanol (yetzer hara)<br>• yn meddu ar ymreolaeth – ewyllys rydd, sy'n dod â chyfrifoldeb moesol; Genesis 3. |
| 3.5.2ch Moeseg feddygol: erthyliad ac ewthanasia – safbwyntiau Iddewig | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Safbwyntiau Iddewig o ran pryd mae bywyd yn dechrau:<br>• mae meddwl Iddewig yn cydnabod bod gan y ffoetws fywyd posibl<br>• nid yw ffoetws yn cael ei ystyried yn berson llawn (nefesh) tan ei eni yn ôl y Talmud, mae'n cael ei ystyried yn rhan o gorff y fam tan hynny.<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Iddewig am erthyliad:<br>• Mewn Iddewiaeth Uniongred, caniateir erthyliad fel arfer os bydd y beichiogrwydd yn peryglu bywyd neu iechyd y fam; Talmud – Ohalot 7:6-8;<br>• rhaid ystyried pikuach nefesh (achub bywyd)<br>• gallai erthyliad gael ei ganiatáu mewn rhai sefyllfaoedd ond mae'n dibynnu ar ganllawiau rabbinaidd ac yn cael ei werthuso fesul achos<br>• mae erthyliad yn benderfyniad moesol meddygol ac ysbrydol<br>• mae Iddewiaeth Ddiwygiedig yn rhoi pwyslais cryf ar hawl y fenyw i ddewis.<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Iddewig am ewthanasia:<br>• mae bywyd yn cael ei ystyried yn sanctaidd; ac o'r gwerth mwyaf; Genesis 1:26-27<br>• mae egwyddor pikuach nefesh yn berthnasol<br>• mae cyfraith Iddewig yn gwahardd ewthanasia gweithredol oherwydd dim ond Duw sydd â'r awdurdod i ddod â bywyd dynol i ben; Llyfr y Pregethwr 3:2<br>• gallai rhai Iddewon gefnogi ewthanasia goddefol os yw person yn dioddef a marwolaeth yn agos.<br>• mae llawer o Iddewon yn annog y defnydd o ddulliau leddfu poen a gofal lliniarol, hyd yn oed os gallai triniaethau o'r fath gyflymu marwolaeth |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | • mae urddas ac ewyllys rydd yr unigolyn i benderfynu yn bwysig mewn Iddewiaeth Ddiwygiedig. |

| **3.6ch Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: rhyddid mynegiant crefyddol a'r defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Iddewig** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.6.1ch Rhyddid mynegiant crefyddol – safbwyntiau Iddewig<br>3.6.2ch Y defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Iddewig | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.6.1ch Rhyddid mynegiant crefyddol – safbwyntiau Iddewig | Dylai dysgwyr ddeall:<br>Credoau a dysgeidiaethau Iddewig am ryddid mynegiant crefyddol:<br>• mae bodau dynol wedi'u creu ar ddelw Duw, gydag urddas a gwerth cynhenid<br>• mae bodau dynol yn rhydd i fynegi eu credoau crefyddol a'u hunaniaeth bersonol<br>• mae pwyslais ar gyfiawnder, ac mae gan bawb yr hawl i fyw yn ôl eu credoau heb ofni erledigaeth na gwahaniaethu; Deuteronomium 16:20<br>• mae Iddewon yn aml wedi cael eu herlid am eu credoau crefyddol, gan arwain at gefnogaeth i ryddid crefyddol, ar gyfer eu hunain a phobl eraill.<br>• rhaid i Iddewon fyw yn unol â chyfraith Iddewig<br>• mae'r Talmud yn addysgu derbyn amrywiaeth mynegiant crefyddol<br>• mae'r Talmud yn addysgu'r gred nad yw moesoldeb a chyfiawnder wedi'u cyfyngu i bobl Iddewig yn unig<br>• rhaid cymhwyso egwyddor dina de-malkhuta dina ("cyfraith y tir yw'r gyfraith")<br>• os yw cyfreithiau gwlad yn torri Cyfraith Iddewig, efallai na fyddant yn berthnasol i Iddewon. |
| 3.6.2ch Y defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Iddewig | Dylai dysgwyr ddeall:<br>Credoau a dysgeidiaethau Iddewig am y defnydd o gyfoeth personol:<br>• mae'r Torah yn addysgu mai Duw sy'n rhoi'r gallu i gaffael cyfoeth; Deuteronomium 8:18<br>• mae gan Iddewon gyfrifoldeb i ddefnyddio eu cyfoeth er lles pawb yn ogystal â budd personol – Tikkun Olam<br>• mae Iddewiaeth yn rhybuddio yn erbyn peryglon trachwant ac ymlyniad eithafol at gyfoeth<br>• Gall ceisio cyfoeth arwain at ymddygiad anfoesegol ac esgeuluso cyfrifoldebau ysbrydol a chymunedol; Diarhebion 28:20–22<br>• mae Tzedakah yn aml yn cael ei gyfieithu fel elusen ond yn fwy cywir fel "cyfiawnder" neu "tegwch"<br>• mae rhoi i elusen yn weithred cyfiawnder, yn ogystal â gweithred haelioni<br>• mae gofyn i Iddewon roi cyfran o'u hincwm, 10% fel arfer, fel ma'aser (degwm) i'r rhai mewn angen<br>• yn aml mae gan gartrefi Iddewig traddodiadol flwch pushke i gasglu arian i elusen. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Safbwyntiau crefyddau'r byd**
**d – safbwyntiau Sikhaidd (Sikhi)**

| **3.4d** | **Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: Stiwardiaeth o'r ddaear – safbwyntiau Sikhaidd** |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.4.1d Perthynas y ddynoliaeth â'r byd naturiol – safbwyntiau Sikhaidd<br>3.4.2d Hawliau anifeiliaid – safbwyntiau Sikhaidd | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.4.1d Perthynas y ddynoliaeth â'r byd naturiol – safbwyntiau Sikhaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Sikhaidd am berthynas dynoliaeth â'r byd naturiol:<br><br>• mae pob ffurf ar fywyd yn rhyng-gysylltiedig<br>• mae'r bydysawd cyfan yn amlygiad o Waheguru ac yn haeddu parch; Guru Granth Sahib 8; 723<br>• mae'r Guru Granth Sahib yn cynnwys nifer o emynau sy'n dathlu natur fel mynegiannau o fawredd Waheguru<br>• mae'r cysyniad o Sarbat da Bhala (llesiant pawb) yn cynnwys llesiant y blaned a'i holl drigolion<br>• mae niweidio natur yn cael ei ystyried fel niweidio rhan o greadigaeth Duw<br>• mae'r cysyniad o santok (bodlonrwydd) mewn Sikhiaeth yn berthnasol i sut mae rhywun yn rhyngweithio â'r byd naturiol<br>• mae Sikhiaid yn cael eu hannog i fyw'n syml, gan osgoi defnydd a gwastraff gormodol.<br><br>Sut mae nodau a gwaith Eco Sikh UK yn adlewyrchu credoau Sikhaidd am ofalu am y byd naturiol. |
| 3.4.2d Hawliau anifeiliaid – safbwyntiau Sikhaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Sikhaidd am hawliau anifeiliaid:<br>• mae Waheguru (Duw) yn bodoli ym mhob ffurf ar fywyd, nid bodau dynol yn unig; Guru Granth Sahib 663<br>• mae Gurus Sikhaidd yn gosod esiamplau o dosturi tuag at anifeiliaid. roedd Guru Har Rai, y seithfed Guru Sikhaidd, yn adnabyddus am ei garedigrwydd tuag at anifeiliaid<br>• mae arfer y rhinwedd daya (tosturi) yn berthnasol i anifeiliaid yn ogystal â bodau dynol<br>• mae niweidio anifeiliaid yn amharu ar gydbwysedd natur ac mae'n anghyson ag egwyddor Sarbat da Bhala<br>• mae'r cysyniad o ailymgnawdoliad yn golygu bod pobl yn byw llawer o fywydau ar y ddaear, rhai ohonynt ar ffurf anifeiliaid.<br>• gallai niweidio neu ladd anifeiliaid arwain at karma drwg ac arwain bodau dynol ymhellach i ffwrdd oddi wrth mukti. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | Sikh beliefs and teachings about the use of animals:<br>• mae Sikhiaeth yn caniatáu dewis personol mewn arferion deietegol<br>• nid yw defnyddio anifeiliaid ar gyfer bwyd wedi'i wahardd<br>• mae'r dull jhatka o ladd anifeiliaid yn golygu bod yn rhaid lladd yr anifail cyn gynted â phosibl a phrofi cyn lleied o ddioddefaint â phosibl<br>• mae llawer o Sikhiaid, yn enwedig y rhai sy'n dilyn cod ymddygiad Khalsa, yn llysieuol; Guru Granth Sahib 467<br>• mae rhai o'r farn bod y cysyniad o ahimsa yr un mor berthnasol i anifeiliaid<br>• mae ceginau langar mewn gurdwaras yn cynnig bwyd llysieuol yn unig.<br><br>Credoau, dysgeidiaethau ac arferion Sikhaidd am ddefnyddio anifeiliaid mewn ymchwil gwyddonol a meddygol:<br>• nid oes gwaharddiad penodol yn erbyn defnyddio anifeiliaid mewn ymchwil gwyddonol a meddygol<br>• mae llawer o Sikhiaid yn gweld bywyd dynol fel un sydd yn y pen draw yn fwy gwerthfawr na bywyd anifeiliaid.<br>• byddai angen cydbwyso unrhyw ymchwil sy'n defnyddio anifeiliaid yn erbyn y gwerth Sikhaidd ahimsa<br>• rhaid cyfiawnhau unrhyw ddioddefaint drwy fanteision sylweddol i fywyd ac iechyd bodau dynol<br>• gallai Sikhiaid gefnogi'r defnydd o ddulliau ymchwil eraill.<br><br>Sut mae nodau a gwaith Khalsa Rescue Foundation yn adlewyrchu credoau Islamaidd am hawliau anifeiliaid. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **3.5d Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: y natur ddynol a'r hawl i fywyd – safbwyntiau Sikhaidd (Sikhi)** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.5.1d Yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol – safbwyntiau Sikhaidd<br>3.5.2d Moeseg feddygol: erthyliad ac ewthanasia – safbwyntiau Sikhaidd | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.5.1d Yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol – safbwyntiau Sikhaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaeth Sikhaidd am yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol:<br>• mae pob bod dynol yn cynnwys gwreichionen ddwyfol o'r enw atma (enaid)<br>• mae'r atma yn rhan o'r enaid cyffredinol neu Waheguru; Guru Granth Sahib 96<br>• cafodd bodau dynol i gyd eu creu gan Waheguru ac maent yn haeddu parch;Guru Granth Sahib 272; 349<br>• bodau dynol yw'r ffurf uchaf ar greaduriaid byw ac maent yn unigryw oherwydd eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau moesol<br>• mae gan fodau dynol hanfod ysbrydol<br>• mae canlyniadau i weithredoedd dynol – karma cadarnhaol neu negyddol<br>• mae bodau dynol yn cael eu hannog i gyfateb eu hewyllys i hukam (yr ewyllys ddwyfol)<br>• mae karma yn effeithio ar gyflawni mukti<br>• dylai Sikhiaid anelu i'w bywydau fod yn gurmukh yn hytrach na manmukh<br>• dylai Sikhiaid anelu i drosgynnu (bod y tu hwnt i) haumai (yr ego – hunanganologrwydd). |
| 3.5.2d Moeseg feddygol: erthyliad ac ewthanasia – safbwyntiau Sikhaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Sikhaidd am foeseg feddygol – erthyliad:<br>• oherwydd cylch samsara, nid oes pwynt lle nad yw ffoetws neu embryo yn fyw<br>• mae bywyd yn sanctaidd ac yn rhodd gan Waheguru; Guru Granth Sahib 921<br>• mae'r atma (enaid) yn mynd i mewn i'r corff ar adeg cenhedlu; Guru Granth Sahib 74<br>• y cysyniad o daya (trugaredd)<br>• pwysigrwydd bwriad y tu ôl i weithredoedd<br>• y cysyniad o miri-piri – y cydbwysedd rhwng dysgeidiaethau crefyddol a sefyllfaoedd ymarferol<br>• mewn rhai sefyllfaoedd, gallai moeseg Sikhaidd gefnogi erthyliad fel dewis tosturiol<br>• mae cydnabyddiaeth o'r penderfyniadau moesol cymhleth sy'n gysylltiedig yn aml. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | Credoau a dysgeidiaethau Sikhaidd am foeseg feddygol – ewthanasia:<br>• gwerth uchel ar sancteiddrwydd bywyd<br>• pwyslais ar dosturi, cyfrifoldeb moesol, a derbyn hukam (ewyllys Waheguru)<br>• mae pob bywyd yn rhodd gan Waheguru; Guru Granth Sahib 921<br>• mae'r rhan fwyaf o Sikhiaid yn credu mai Wareguru ddylai benderfynu ar adegau geni a marw; Guru Granth Sahib 376<br>• gall dioddefaint fod yn rhan o gylch karmig unigolyn ac arwain at dwf ysbrydol<br>• gellid ystyried bod ewthanasia yn amharu ar y daith karmig tuag at mukti<br>• rhinwedd Sikhaidd yw daya (tosturi)<br>• byddai dysgeidiaethau Sikhaidd yn annog darparu gofal lliniarol a lleddfu poen yn hytrach na chyflymu marwolaeth<br>• mae seva (gwasanaeth anhunanol) yn golygu gofalu am y rhai mewn angen. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

<table>
<tr><td colspan="2">3.6d Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: rhyddid mynegiant crefyddol a'r defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Sikhaidd (Sikhi)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.6.1d Rhyddid mynegiant crefyddol – safbwyntiau Sikhaidd<br>3.6.2d Y defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Sikhaidd</td></tr>
<tr><td>Adran</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>3.6.1d Rhyddid mynegiant crefyddol – safbwyntiau Sikhaidd</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Sikhaidd am ryddid mynegiant crefyddol:<br>• mae'r cysyniad o Sarbat da Bhala (llesiant pawb) yn parchu hawliau unigolion i ddilyn eu credoau crefyddol eu hunain<br>• mae llawer o lwybrau i'r Waheguru; Guru Granth Sahib 139 a 483<br>• Sut y brwydrodd y Gurus Sikhaidd am fynegiant crefyddol, gan gynnwys:<br>    • y Guru Arjan (cafodd ei ferthyru am wrthod cyfaddawdu o ran ei gredoau Sikhaidd)<br>    • y Guru Tegh Bahadur (cafodd ei ddienyddu am wrthod troi at Islam)<br>    • y Guru Gobind Singh (cyfarwyddodd Sikhiaid i wisgo'r twrban)<br>    Aberthodd y Guru Tegh Bahadur ei fywyd i amddiffyn rhyddid crefyddol Hindŵiaid<br><br>• mae arweinwyr y Sikhiaid wedi caniatáu i bob crefydd ymarfer ei ffydd yn rhydd (teyrnasiad Maharajah Ranjit Singh, 1801 i 1839)<br>• roedd Gurus Sikhaidd yn pregethu'n gyson yn erbyn gorfodaeth mewn materion yn ymwneud â chrefydd; Guru Granth Sahib 7<br>• mae'r Adi Granth hefyd yn cynnwys ysgrifau gan awduron Hindŵaidd a Mwslimaidd oedd yn credu yn undod Duw.<br>• mae Sikhiaid yn cael eu hannog i ddarllen llyfrau crefyddau eraill er mwyn addysgu eu hunain; Rehat Maryada Pennod 10<br>• mae'r kirpan yn symbol o bwysigrwydd amddiffyn y ffydd Sikhaidd.</td></tr>
<tr><td>3.6.2d Y defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau Sikhaidd</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Credoau a dysgeidiaethau Sikhaidd am y defnydd o gyfoeth personol:<br>• mae Sikhiaid yn cael eu hannog i neilltuo cyfran o'u hincwm – daswandh (10% yn draddodiadol) at bwrpasau elusennol ac i gefnogi llesiant cymunedol<br>• 1 o 3 philer Sikhiaeth yw Vand Chhako (rhoi) Guru Granth Sahib 1245<br>• osgoi awydd am gyfoeth gormodol<br>• annog bodlonrwydd drwy heddwch a chyflawniad ysbrydol; Guru Granth Sahib 286<br>• ni ddylai mynd ar drywydd cyfoeth arwain at fateroliaeth na thynnu sylw oddi ar nodau ysbrydol; Guru Granth Sahib 5; Guru Granth Sahib 1331</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | • dylai Sikhiaid anelu i'w bywydau fod yn gurmukh yn hytrach na manmukh<br>• mae angen i Sikhiaid drosgynnu (bod y tu hwnt i) haumai (yr ego – hunanganologrwydd). |

**Safbwyntiau anghrefyddol**

| **3.7** | **Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: stiwardiaeth o'r ddaear – safbwyntiau anghrefyddol** |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.7.1 Perthynas y ddynoliaeth â'r byd naturiol – safbwyntiau anghrefyddol<br>3.7.2 Hawliau anifeiliaid – safbwyntiau anghrefyddol | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.7.1 Perthynas y ddynoliaeth â'r byd naturiol – safbwyntiau anghrefyddol | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am berthynas dynoliaeth â'r byd naturiol:<br>• rhyng-gysylltrwydd rhwng popeth byw<br>• mae gan fodau dynol y gallu i resymu a rhagweld canlyniadau eu gweithredoedd<br>• cyfiawnder amgylcheddol – amddiffyn poblogaethau bregus rhag niwed amgylcheddol.<br><br>Sut mae'r nodau a gwaith Humanist Climate Action yn adlewyrchu credoau dyneiddiol am ofalu am y byd.<br><br>Tebygrwydd a gwahaniaethau safbwyntiau credinwyr crefyddol ac anghrefyddol am berthynas dynoliaeth â'r byd naturiol. |
| 3.7.2 Hawliau anifeiliaid – safbwyntiau anghrefyddol | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am hawliau anifeiliaid:<br>• mae Deddf Lles Anifeiliaid 2022 yn cydnabod bod anifeiliaid yn fodau ymdeimladol<br>• y cysyniad o rywogaethiaeth<br>• y cysyniad o Ecoleg Ddwfn<br>• ymrwymiad i warchod bioamrywiaeth a chynnal ecosystemau iach.<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am ddefnyddio anifeiliaid er budd dynol:<br><br>• pryderon am drin anifeiliaid mewn ffordd ddigreulon wrth gynhyrchu bwyd<br>• i rai, hybu feganiaeth neu lysieuaeth<br>• pryderon am effaith amaethyddiaeth anifeiliaid ac arferion ffermio diwydiannol ar yr amgylchedd ac ar bobl.<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am ddefnyddio anifeiliaid mewn ymchwil gwyddonol a meddygol:<br>• wedi'i gyfiawnhau lle y gallai arwain at ddatblygiadau meddygol dynol sylweddol |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | • lleihau niwed a cheisio darganfod dulliau eraill (fel modelu cyfrifiadurol)<br>• pryder y gallai gwahardd ymchwil anifeiliaid rwystro cynnydd gwyddonol a meddygol<br>• pryder bod rhywfaint o ymchwil ar anifeiliaid wedi arwain at niwed i bobl (e.e. thalidomid) i rai, ni ddylid defnyddio anifeiliaid fel modd o gyflawni rhywbeth arall.<br><br>Sut mae nodau a gwaith People for the Ethical Treatment of Animals yn adlewyrchu safbwyntiau anghrefyddol am hawliau anifeiliaid.<br><br>Tebygrwydd a gwahaniaethau safbwyntiau credinwyr crefyddol ac anghrefyddol am hawliau anifeiliaid. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 3.8 Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: y natur ddynol a'r hawl i fywyd – safbwyntiau anghrefyddol

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:
3.8.1 Yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol – safbwyntiau anghrefyddol
3.8.2 Moeseg feddygol: erthyliad ac ewthanasia – safbwyntiau anghrefyddol

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 3.8.1 Yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol – safbwyntiau anghrefyddol | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol:<br>• mae bodau dynol yn rhywogaeth ddiffiniedig<br>• nodweddion corfforol fel ymennydd mawr a'r gallu i ddefnyddio iaith a symbolau cymhleth<br>• yn meddu ar hunanymwybod<br>• yn meddu ar ymreolaeth – ewyllys rydd ac maent yn asiantau moesol sy'n gallu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir<br>• yn gallu archwilio'r ymchwil i ystyr a phwrpas bywyd.<br><br>Tebygrwydd a gwahaniaethau safbwyntiau credinwyr crefyddol ac anghrefyddol am yr hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol. |
| 3.8.2 Moeseg feddygol: erthyliad ac ewthanasia – safbwyntiau anghrefyddol | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am erthyliad:<br>• cymryd gwahanol ochrau'r ddadl dros ddewis yn erbyn y ddadl o blaid bywyd<br>• mae rhai yn dadlau y dylai fod yn seiliedig ar ymreolaeth bersonol<br>• mae rhai yn pwysleisio'r angen am fframwaith cyfreithiol i gael mynediad at erthyliad<br>• mae rhai am gael mynediad at wasanaethau erthyliad fel y bo angen er mwyn diogelu iechyd menywod<br>• mae rhai yn credu bod personoldeb yn datblygu yn ddiweddarach yn y beichiogrwydd ac yn caniatáu erthyliadau cynnar<br>• ystyried y sefyllfa unigol a'r canlyniadau<br>• pryderon am y 'llethr llithrig'.<br><br>Tebygrwydd a gwahaniaethau safbwyntiau credinwyr crefyddol ac anghrefyddol am erthyliad.<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am ewthanasia:<br>• safbwyntiau gwahanol o ran pryd mae person yn peidio â bodoli<br>• ymreolaeth bersonol ac ansawdd bywyd – yr hawl i farw<br>• gwneud penderfyniadau rhesymegol, gwybodus a chyfreithiol yn seiliedig ar gyngor meddygol a gwerthoedd personol<br>• yr angen am fframwaith cyfreithiol clir i amddiffyn cleifion a darparwyr gofal iechyd.<br><br>Tebygrwydd a gwahaniaethau safbwyntiau credinwyr crefyddol ac anghrefyddol am ewthanasia. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 3.9 Rolau, hawliau a chyfrifoldebau: rhyddid mynegiant crefyddol a'r defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau anghrefyddol

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:

3.9.1 Rhyddid mynegiant crefyddol – safbwyntiau anghrefyddol
3.9.2 Y defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau anghrefyddol

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 3.9.1 Rhyddid mynegiant crefyddol – safbwyntiau anghrefyddol | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am ryddid mynegiant crefyddol:<br>• hawl dynol sylfaenol sy'n hybu annibyniaeth ac urddas yr unigolyn<br>• nid yw'n absoliwt, dylid ei gyfyngu pan fydd yn gwrthdaro â hawliau eraill neu drefn gyhoeddus<br>• mae rhyddid mynegiant crefyddol wedi'i ymgorffori yn y gyfraith yn y Deyrnas Unedig – Deddf Hawliau Dynol 1998<br>• cefnogaeth i gymdeithas blwralaidd<br>• cefnogaeth i'r angen am wahanu crefydd a llywodraeth yn glir<br>• byddai rhai yn gwrthwynebu ysgolion ffydd<br>• ni ddylai deddfau a pholisïau ffafrio symbolau na mynegiant crefyddol dros rai seciwlar<br>• cyfyngiadau ar y defnydd o symbolau crefyddol neu proselyteiddio (cenhadu) mewn ysgolion cyhoeddus, swyddfeydd llywodraeth, neu fannau eraill sy'n cael eu rheoli gan y wladwriaeth.<br><br>Tebygrwydd a gwahaniaethau safbwyntiau credinwyr crefyddol ac anghrefyddol am ryddid mynegiant crefyddol. |
| 3.9.2 Y defnydd o gyfoeth personol – safbwyntiau anghrefyddol | Dylai dysgwyr ddeall:<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am y defnydd o gyfoeth personol:<br><br>• cyfoeth personol fel adnodd i wella ansawdd bywyd i chi eich hun a phobl eraill<br>• gall cyfoeth personol gyfrannu at gysur a diogelwch, ond nid dyna unig benderfynydd hapusrwydd<br>• mae gwario arian ar nwyddau a gwasanaethau yn ysgogi twf economaidd i bawb ac yn dod â boddhad personol<br>• mae cyfoeth yn ddefnyddiol ond ni ddylai arwain at drachwant.<br><br>Tebygrwydd a gwahaniaethau safbwyntiau credinwyr crefyddol ac anghrefyddol am y defnydd o gyfoeth personol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 4

### Crefydd a hawliau dynol

Math o Asesiad: Asesiad di-arholiad (6 awr)
20% o'r cymhwyster
60 marc

### Trosolwg o'r uned

Pwrpas yr uned hon yw:

- ystyried materion hawliau dynol o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol
- galluogi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd materion hawliau dynol yn y gymdeithas gyfoes o safbwynt astudiaethau crefyddol
- adfyfyrio ar werthoedd a chredoau personol sy'n ymwneud â hawliau dynol

Rhaid i ddysgwyr gwblhau tasgau sy'n seiliedig ar y **ddwy** grefydd a astudiwyd (Cristnogaeth neu Gristnogaeth Gatholig ac un o grefyddau'r byd) ym mhob uned arall, **a** safbwyntiau anghrefyddol.

### Meysydd cynnwys

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

| **4.1 Hawliau dynol** | |
|---|---|
| 4.1.1 Credoau, dysgeidiaethau, arferion a safbwyntiau sy'n ymwneud â hawliau dynol | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 4.1.1 Credoau, dysgeidiaethau, arferion a safbwyntiau sy'n ymwneud â hawliau dynol | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• credoau, dysgeidiaethau, arferion a safbwyntiau crefyddol sy'n ymwneud â hawliau dynol<br>• safbwyntiau anghrefyddol am hawliau dynol<br>• erthyglau perthnasol o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol.<br><br>Bydd dysgwyr yn canolbwyntio ar ddau o dri mater hawliau dynol y bydd CBAC yn eu gosod bob blwyddyn o'r rhestr ganlynol:<br><br>• cydraddoldeb rhywedd<br>• hawliau LHDTC+<br>• cydraddoldeb hil pobl a chymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol<br>• hawl i addysg<br>• hawl i ryddid rhag caethwasiaeth a llafur gorfodol<br>• hawl i fywyd a rhyddid rhag y gosb eithaf<br>• hawl i geisio cyfiawnder am dorri ar hawliau dynol<br>• hawliau pobl ag anableddau<br>• hawliau ffoaduriaid a cheiswyr lloches. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | Dylai dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth eang o nodau, pwrpasau ac egwyddorion allweddol y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. |

| **4.2 Sgiliau Astudiaethau Crefyddol** | |
|---|---|
| 4.2.1 Dewis ac ymchwilio i elusennau neu sefydliadau<br>4.2.2 Ystyried pwysigrwydd materion hawliau dynol i gymdeithas heddiw<br>4.2.3 Adfyfyrio ar werthoedd a chredoau personol | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 4.2.1 Dewis ac ymchwilio i elusennau neu sefydliadau | Dylai dysgwyr allu:<br>• dewis elusennau neu sefydliadau lleol, cenedlaethol neu fyd-eang yn seiliedig ar eu nodau a'u pwrpas, a sut maen nhw'n ymgyrchu dros faterion hawliau dynol<br>• ymchwilio i waith elusennau neu sefydliadau a sut mae'r gwaith hwnnw'n cyfateb i erthyglau perthnasol y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. |
| 4.2.2 Ystyried pwysigrwydd materion hawliau dynol i gymdeithas heddiw | Dylai dysgwyr allu dadansoddi a gwerthuso pwysigrwydd materion hawliau dynol i gymdeithas heddiw yn seiliedig ar:<br>• safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol<br>• pwrpas, nodau a gwaith elusennau neu sefydliadau. |
| 4.2.3 Adfyfyrio ar werthoedd a chredoau personol | Dylai dysgwyr allu:<br>• adfyfyrio ar eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain mewn perthynas â'r mater hawliau dynol<br>• adfyfyrio ar sut mae eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain yn cyfateb i elusennau neu sefydliadau. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y pwnc ymhellach:

- datblygu meddwl annibynnol a hyder wrth fynegi eu credoau, eu gwerthoedd a'u hargyhoeddiadau eu hunain gyda soffistigeiddrwydd cynyddol
- archwilio eu credoau, eu gwerthoedd a'u hargyhoeddiadau eu hunain, gan ddeall y gall credoau newid dros amser
- datblygu empathi, goddefgarwch, tosturi a chwilfrydedd drwy fynd i'r afael â gwahanol safbwyntiau ac argyhoeddiadau crefyddol ac anghrefyddol
- cymryd rhan mewn gweithio ar y cyd.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 3 ASESU

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gredoau, arferion a dysgeidiaethau crefyddol ac anghrefyddol

**AA2**
Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gredoau, dysgeidiaethau, arferion, gwerthoedd ac argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol

**AA3**
Dadansoddi, gwerthuso, neu lunio barn ar amrywiaeth o faterion moesegol a moesol, credoau crefyddol ac anghrefyddol, dysgeidiaethau, arferion, gwerthoedd, ac argyhoeddiadau athronyddol

**AA4**

Dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau yn ymarferol sy'n berthnasol i astudio Astudiaethau Crefyddol.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob cydran ac am y cymhwyster yn gyffredinol (i'w gadarnhau).

| | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 15% | 8% | 7% | 0% | 30% |
| Uned 2 | 0% | 5% | 10% | 5% | 20% |
| Uned 3 | 5% | 11% | 14% | 0% | 30% |
| Uned 4 | 0% | 10% | 5% | 5% | 20% |
| Pwysoliad cyffredinol | **20%** | **34%** | **36%** | **10%** | **100%** |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 3.2 Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad

### Uned 2

Bob blwyddyn, bydd CBAC yn dewis dwy o'r themâu gosod canlynol a bydd yn darparu gosodiad sy'n gysylltiedig â phob thema:

a) Priodas, godineb, ysgariad ac ailbriodi
b) Dulliau artiffisial o atal cenhedlu a chynllunio teulu'n naturiol
c) Cyd-fyw a rhyw cyn priodi a thu allan i briodas
d) Perthnasoedd un rhyw, partneriaethau sifil a phriodas un rhyw
e) Perthnasoedd rhyng-ffydd a phriodas y tu allan i'r traddodiad crefyddol
f) Rolau o fewn y teulu, gan gynnwys rolau rhywedd o fewn perthnasoedd
g) Magwraeth grefyddol, seremonïau plentyndod ac ysgolion ar sail ffydd.

Bydd CBAC yn gosod y themâu a'r gosodiadau cysylltiedig bob blwyddyn. Byddant ar gael drwy safle Porth CBAC ym mis Medi yn ystod blwyddyn gyntaf yr astudio a phob blwyddyn ar ôl hynny.

Bydd canolfannau'n dewis un thema a gosodiad cysylltiedig fel ffocws y tasgau asesiad di-arholiad.

Rhaid i'r asesiad fod yn seiliedig ar y ddwy grefydd a astudiwyd ym mhob uned arall (Cristnogaeth neu Gristnogaeth Gatholig ac un o grefyddau'r byd) a safbwyntiau anghrefyddol.

Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 20% at radd gyffredinol y cymhwyster.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy aseiniad wedi'i osod yn allanol a fydd yn cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC. Rhaid cyflwyno asesiadau'n ddigidol (gellir eu hysgrifennu â llaw a'u sganio, neu eu cwblhau'n ddigidol).

### Uned 4

Bob blwyddyn, bydd CBAC yn dewis tri o'r materion hawliau dynol canlynol:
- cydraddoldeb rhywedd
- hawliau LHDTC+
- cydraddoldeb hil pobl a chymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
- hawl i addysg
- hawl i ryddid rhag caethwasiaeth a llafur gorfodol
- hawl i fywyd a rhyddid rhag y gosb eithaf
- hawl i geisio cyfiawnder am dorri ar hawliau dynol
- hawliau pobl ag anableddau
- hawliau ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Bydd CBAC yn gosod y themâu bob blwyddyn. Byddant ar gael drwy safle Porth CBAC ym mis Medi yn ail flwyddyn yr astudio a phob blwyddyn ar ôl hynny.

Bydd canolfannau'n dewis dau fater hawliau dynol fel ffocws y tasgau asesiad di-arholiad.

Rhaid i'r asesiad fod yn seiliedig ar y ddwy grefydd a astudiwyd ym mhob uned arall (Cristnogaeth neu Gristnogaeth Gatholig ac un o grefyddau'r byd) a safbwyntiau anghrefyddol.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 20% at radd gyffredinol y cymhwyster.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy aseiniad wedi'i osod yn allanol. Bydd yn cael ei osod a'i farcio gan CBAC. Rhaid cyflwyno asesiadau'n ddigidol (gellir eu hysgrifennu â llaw a'u sganio, neu eu cwblhau'n ddigidol).

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 4 CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau camymddwyn CBAC. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg o gwbl wrth baratoi gwaith ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol. Bydd Uned 1, Uned 2 ac Uned 3 ar gael yn 2026 (a phob blwyddyn wedi hynny). Bydd Uned 4 ar gael yn 2027 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster am y tro cyntaf yn haf 2027.

UNWAITH yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll uned unigol. Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol cyhyd ag y bodlonir y rheol derfynol yn gyntaf h.y. rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r rhan leiaf o'r asesiad sy'n ofynnol i ennill cymhwyster yn y gyfres y maent yn cyfnewid ynddi. Pennir y rheol derfynol ar 40% o gymhwyster cyffredinol TGAU Astudiaethau Crefyddol. Os yw'r asesiad sy'n cael ei ailsefyll yn cyfrannu at y gofyniad rheol derfynol o 40%, marc yr asesiad newydd fydd yn cyfrif.

Os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru amdani am y trydydd tro, bydd rhaid i'r ymgeisydd ailgofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Gellir trosglwyddo marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn gymwys fel ymgeisydd ailsefyll.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 5 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 5.1 Cofrestru

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1, Uned 2 ac Uned 3 ar gael yn 2026 (a phob blwyddyn wedi hynny). Bydd Uned 4 ar gael yn 2027 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster am y tro cyntaf yn haf 2027.

Pennir y rheol derfynol ar 40% o gymhwyster cyffredinol TGAU Astudiaethau Crefyddol. Os yw'r asesiad sy'n cael ei ailsefyll yn cyfrannu at y gofyniad rheol derfynol o 40%, marc yr asesiad newydd fydd yn cyfrif waeth beth fo'u canlyniadau blaenorol yn yr asesiad hwnnw.

<u>Ymgeiswyr Cyn-16 (h.y. ymgeiswyr sy'n 16 neu'n hŷn ar 31 Awst yn y flwyddyn y c</u>ânt eu cofrestru ynddi)
Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll uned unigol. Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol cyhyd ag y bodlonir y rheol derfynol yn gyntaf h.y. rhaid i ymgeiswyr gwblhau 40% o'r asesu sy'n ofynnol i ennill cymhwyster yn y gyfres y maent yn cyfnewid ynddi.

Os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru amdani am y trydydd tro, bydd rhaid i'r ymgeisydd ailgofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn gymwys fel ymgeisydd ailsefyll.

Gellir trosglwyddo marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

<u>Ymgeiswyr ôl-16 (h.y. ymgeiswyr sy'n 16 neu'n hŷn ar 1 Medi yn y flwyddyn y cânt eu cofrestru ynddi)</u>
Nid oes cyfyngiad ar y nifer o weithiau y gall ymgeisydd ailsefyll uned unigol; fodd bynnag, defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig mwyaf diweddar i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol cyhyd ag y bodlonir y rheol derfynol yn gyntaf h.y. rhaid i ymgeiswyr gwblhau 40% o'r asesu sy'n ofynnol i ennill cymhwyster yn y gyfres y maent yn cyfnewid ynddi.

Nid yw'r rheol 'dechrau o'r newydd' yn berthnasol i ymgeiswyr ôl-16.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn gymwys fel ymgeisydd ailsefyll.

Gellir trosglwyddo marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Nodir y codau cofrestru isod:

| | | Codau cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | **Cynfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| **Uned 1** | Credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol – Cristnogaeth a Bwdhaeth | 3150UA | 3150NA |
| **Uned 1** | Credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol – Cristnogaeth a Hindŵaeth | 3150UB | 3150NB |
| **Uned 1** | Credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol – Cristnogaeth a Islam | 3150UC | 3150NC |
| **Uned 1** | Credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol – Cristnogaeth a Iddewiaeth | 3150UD | 3150ND |
| **Uned 1** | Credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol – Cristnogaeth a Sikhiaeth (Sikhi) | 3150UE | 3150NE |
| **Uned 1** | Credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol – Gristnogaeth Gatholig a Iddewiaeth | 3150UF | 3150NF |
| **Uned 2** | Crefydd a pherthnasoedd | 3150U2 | 3150N2 |
| **Uned 3** | Rolau, hawliau a chyfrifoldebau – Cristnogaeth a Bwdhaeth | 3150UG | 3150NG |
| **Uned 3** | Rolau, hawliau a chyfrifoldebau – Cristnogaeth a Hindŵaeth | 3150UH | 3150NH |
| **Uned 3** | Rolau, hawliau a chyfrifoldebau – Cristnogaeth a Islam | 3150UJ | 3150NJ |
| **Uned 3** | Rolau, hawliau a chyfrifoldebau – Cristnogaeth a Iddewiaeth | 3150UK | 3150NK |
| **Uned 3** | Rolau, hawliau a chyfrifoldebau – Cristnogaeth a Sikhiaeth (Sikhi) | 3150UL | 3150NL |
| **Uned 3** | Rolau, hawliau a chyfrifoldebau – Gristnogaeth Gatholig a Iddewiaeth | 3150UM | 3150NM |
| **Uned 4** | Crefydd a hawliau dynol | 3150U4 | 3150N4 |
| **CBAC TGAU Astudiaethau Crefyddol** | | 3150QS | 3150CS |

## 5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*–G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 |
|---|---|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynaliadwyedd | | | ✓ | ✓ |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Hawliau Dynol | | | | ✓ |
| Amrywiaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith | | | | ✓ |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Llythrennedd | | | | |
| Gwrando | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Darllen | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Siarad | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ysgrifennu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | **Uned 1** | **Uned 2** | **Uned 3** | **Uned 4** |
|---|---|---|---|---|
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Rhifedd | | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | | | | |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | | | | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siapiau, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | | | | |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau ar sail gwybodaeth | | ✓ | | ✓ |
| Cymhwysedd Digidol | | | | |
| Dinasyddiaeth | | | | |
| Rhyngweithio a Chydweithio | | | | |
| Cynhyrchu | | ✓ | | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | **Uned 1** | **Uned 2** | **Uned 3** | **Uned 4** |
|---|---|---|---|---|
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | | ✓ | | ✓ |
| Sgiliau Cyfannol | | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | | ✓ | | ✓ |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | | ✓ | | ✓ |
| Cynllunio a Threfnu | | ✓ | | ✓ |
| Effeithiolrwydd Personol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd. 2024